Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG) | | STANDING ADVISORY COUNCIL FOR RELIGIOUS EDUCATION (SACRE) |
| DYDD MERCHER, 12 HYDREF 2022 AM 2.00 O'R GLOCH YP | | WEDNESDAY, 12 OCTOBER 2022 AT 2.00 PM |
| CYFARFOD RHITHWIR WEDI'I FFRYDIO'N FYW | | VIRTUAL LIVE STREAMED MEETING |
| Swyddog Pwyllgor | Shirley Cooke 01248 752514 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**

**Cynghorwyr / Councillors:-**

Non Dafydd, Douglas M Fowlie, Gwilym O Jones, Alun Mummery, Dylan Rees, Arfon Wyn

**Yr Enwadau Crefyddol/Religious Denominations**

Parch/Rev Neil Ridings (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Colette Owens (Yr Eglwys Babyddol/The Catholic Church), Parch/Rev Sue Altree (Yr Eglwys Fethodistaidd/The Methodist Church), Parch/Rev Deborah Stammers (Undeb y Bedyddwyr/The Baptist Union of Wales), Edward Morus Jones (Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg/ Union of Welsh Independents), Elaine Green (Yr Eglwys Bresbyteraidd/ Presbyterian Church of Wales)

**Athrawon/Teachers**

Mefys Jones-Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern), Owain Roberts (Ysgol Cybi), Manon Morris Williams (Ysgol Santes Dwynwen)

**Aelodau Cyfetholedig/Co-Opted Members**

Rheinallt Thomas

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**2** **COFNODION** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfod blaenorol CYSAG a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2022.

**3** **YSGOLION YNYS MÔN A GWE**

Mr Phil Lord, GWE i roi trosolwg o'r gefnogaeth a ddarperir gan GWE i ysgolion Ynys Môn.

**4** **DIWEDDARIAD GAN YMGYNGHORYDD AG I'R CYSAG**

I dderbyn diweddariad gan Ymgynghorydd AG i'r CYSAG ar y Maes Llafur Cytûnedig ar gyfer Ysgolion Ynys Môn.

**5** **PROSIECT PERERINDOD GAN YR EGLWYS YNG NGHYMRU**

I dderbyn cyflwyniad gan Elin Owen o'r Eglwys yng Nghymru ar y gwaith a wneir gan Esgobaeth Bangor ar Brosiect Pererindod 'Pererin'.

**6** **SAFONAU ADDYSG GREFYDDOL** (Tudalennau 7 - 32)

Cyflwyno gwybodaeth o adroddiadau arolygu Estyn (Gwanwyn 2022) mewn perthynas â'r ysgolion canlynol:-

- Ysgol Gynradd Corn Hir, Llangefni
- Ysgol Gynradd Cemaes

**7** **CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU (CCYSAGAUC)** (Tudalennau 33 - 44)

Cyflwyno, er gwybodaeth, gofnodion drafft y cyfarfod CCYSAGauC a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2022.

**8** **UNRHYW FATERION ERAILL**

Unrhyw faterion eraill – gyda chytundeb y Cadeirydd.

**9** **CYFARFOD NESAF**

Cynhelir cyfarfod nesaf y CYSAG ar ddydd Llun, 6 Chwefror 2023 am 2.00 o'r gloch yp.

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2022

**PRESENNOL:** Y Cynghorydd Non Dafydd (Cadeirydd – o Eitem 2)

**Yr Awdurdod Addysg**

Y Cynghorwyr Gwilym O Jones, Alun Mummery,
Dylan Rees (Cadeirydd ar gyfer Eitem 1), Arfon Wyn

**Yr Enwadau Crefyddol**

Mr Christopher Thomas (Yr Eglwys Gatholig)

**Cynrychiolwyr Athrawon**

Mrs Manon Morris Williams (Ysgol Santes Dwynwen, Niwbwrch)

**Aelod Cyfetholedig**

Mr Rheinallt Thomas

**WRTH LAW:** Mrs Gwyneth M Hughes (Uwch Reolwr Lles, Addysg) (Ymgynghorydd AG CYSAG)
Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor)

**YMDDIHEURIADAU:** Mrs Elaine Green (Eglwys Bresbyteraidd Cymru)
Mrs Mefys Jones-Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch)
Parch Neil Ridings (Yr Eglwys yng Nghymru)
Parch Deborah Stammers (Undeb y Bedyddwyr)

---

**1 CADEIRYDD**

Dywedodd y Cadeirydd a oedd yn ymddeol, y Cynghorydd Dylan Rees, ei fod yn sefyll i lawr fel Cadeirydd y CYSAG ar ôl 9 mlynedd yn y rôl. Dywedodd iddi fod yn bleser ac yn fraint cynrychioli'r CYSAG, a diolchodd i bawb am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd, ac yn arbennig i Mrs Gwyneth Hughes, yr Ymgynghorydd AG, am ei chymorth, ei harweiniad a'i gwaith rhagorol.

Diolchodd aelodau'r CYSAG i'r Cynghorydd Rees am ei ymroddiad fel Cadeirydd.

Cynigiodd y Cynghorydd Gwilym Jones fod y Cynghorydd Non Dafydd yn cael ei hethol yn Gadeirydd y CYSAG am y 5 mlynedd nesaf. Derbyniodd y CYSAG ei gynnig yn unfrydol ac etholwyd y Cynghorydd Non Dafydd yn Gadeirydd y CYSAG.

**2 IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Arfon Wyn yn Is-gadeirydd y CYSAG.

**3 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**4 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y CYSAG a gynhaliwyd ar 15 Chwefror 2022 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**Materion yn codi o'r cofnodion:-**

**Eitem 2**

- Cadarnhaodd yr Ymgynghorydd AG nad oedd wedi derbyn unrhyw ohebiaeth swyddogol am y trefniadau rhwng y sector cynradd ac uwchradd, er ei bod yn cysylltu'n rheolaidd â GwE.

Dywedodd yr Ymgynghorydd AG bod Mr Phil Lord, Ymgynghorydd GwE, yn darparu cefnogaeth ac arweiniad i'r CYSAGau yn Sir y Fflint a Chonwy. Dywedodd fod GwE yn ymrwymedig i ddarparu arbenigedd i ysgolion yn y Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau wrth iddynt lunio'r cwricwlwm. Nid yw'n eglur a fydd GwE yn darparu'r un gefnogaeth broffesiynol i'r CYSAG yn Ynys Môn. Mynegwyd pryder na fydd y Pwyllgor hwn yn gweithredu'n effeithiol heb y gefnogaeth angenrheidiol gan GwE.

Dywedodd Mrs Manon Morris Williams fod Mr Phil Lord wedi cael cyfarfod anffurfiol gydag ysgolion mewn dau ddalgylch ar Ynys Môn, yn cynnwys y sector uwchradd, pan roddodd gyflwyniad penodol ar elfennau mandadol Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM).

Nodwyd fod cymorth yn cael ei ddarparu i ysgolion ar ffurf adnoddau, sy'n cael eu rhannu rhwng ysgolion, yn unol â'r Maes Llafur Cytunedig newydd. Awgrymwyd y dylid gwahodd Mr Phil Lord i gyfarfod nesaf y CYSAG i rannu gwybodaeth â'r Pwyllgor hwn am y safbwyntiau y mae o wedi'u mynegi, yn benodol ynglŷn â dull unedol o ddarparu cyngor ac arbenigedd.

**PENDERFYNWYD fod yr Ymgynghorydd AG yn gwahodd Mr Phil Lord i gyfarfod nesaf y CYSAG i drafod a all GwE ddarparu cefnogaeth ac arweiniad i CYSAG Ynys Môn.**

- Cadarnhawyd fod Mr Edward Morris Jones wedi'i benodi fel cynrychiolydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ar y CYSAG.

• Cytunwyd y byddai’r Ymgynghorydd AG yn gwahodd aelod o’r Eglwys yng Nghymru i gyfarfod nesaf y CYSAG i gyflwyno trosolwg o Brosiect Pererindod yr Eglwys.

**Eitem 3** – Cadarnhawyd fod copi o Adroddiad Blynyddol y CYSAG ar gyfer 2020/21 wedi cael ei anfon at Lywodraeth Cymru.

## 5 MAES LLAFUR CYTUNEDIG AR GYFER CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEDD

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd AG Faes Llafur Cytunedig drafft newydd ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ar gyfer Ysgolion Ynys Môn, a gymeradwywyd mewn cyfarfod o’r Gynhadledd Maes Llafur Cytunedig ar 15 Chwefror 2022. Dywedodd fod y maes llafur yn benodol ar gyfer ysgolion Ynys Môn a bydd angen gwneud mân newidiadau iddo, e.e. ychwanegu clawr, dyddiad a rhoi stamp Cyngor Môn arno, cyn y bydd yn ei ffurf derfynol. Yna, bydd y fersiwn derfynol yn cael ei anfon at Lywodraeth Cymru, i gadarnhau fod y Cyngor Sir wedi mabwysiadu ei faes llafur ei hun.

Cadarnhaodd y CYSAG fod Maes Llafur Cytunedig newydd Ynys Môn ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn fersiwn ardderchog o’r ddogfen a fydd yn rhwydd i ysgolion yr Ynys ei defnyddio.

Nodwyd mai “Maes Llafur Cytunedig” yw’r enw newydd yn Gymraeg, nid “Maes Llafur Cytûn”.

**PENDERFYNWYD anfon fersiwn derfynol Maes Llafur Cytunedig Ynys Môn ar gyfer Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg at Llywodraeth Cymru cyn 1 Medi 2022, gan gadarnhau fod y Cyngor Sir wedi’i fabwysiadu.**

## 6 POLISI NAPFRE AR GREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEDD

Dywedodd yr Ymgynghorydd AG ei bod yn aelod o NAPFRE, a’i bod wedi mynychu un o’u cyfarfodydd yn ddiweddar ac roedd Mr Phil Lord yn bresennol hefyd. Dywedodd fod NAPFRE yn cynnwys grŵp bychan o arbenigwyr ym maes Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg, ac roedd bod yn aelod o’r grŵp yn cynnig cyfle i rannu unrhyw bryderon a gweithio ar bynciau penodol.

Dywedodd yr Ymgynghorydd AG bod NAPFRE yn gweithio ar bolisi drafft i’w rannu ag ysgolion, a fydd yn cyd-fynd yn dda â’r Maes Llafur Cytunedig newydd. Dylai’r polisi drafft fod wedi’i gwblhau erbyn dechrau Medi, a bydd yn cael ei ddosbarthu i’r ysgolion iddynt ei fabwysiadu. Un pwnc pwysig sy’n gysylltiedig â’r polisi yw na fydd gan rieni’r hawl i dynnu eu plant o wersi AG, a bydd hyn yn statudol. Nodwyd y bydd y polisi’n cynorthwyo a chefnogi ysgolion wrth drafod materion heriol.

Nodwyd fod y Cyngor Sir wedi penodi athro/athrawes a fydd yn gofalu am anghenion plant sy’n cael eu haddysgu gartref, a chanmolwyd hyn fel datblygiad cadarnhaol.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys y wybodaeth a gyflwynwyd.**

## 7 CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU (CCYSAGAUC)

Derbyniwyd diweddariad gan Mr Rheinallt Thomas yn dilyn cyfarfod CCYSAGauC a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2022.

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn:-

- Cynhaliwyd cyfarfod CCYSAGauC yn Sir y Fflint a thrafodwyd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg ac ati.
- Cafwyd cyflwyniad ar bartneriaethau a modiwlau gan Dr Tania ap Sion.
- Rhoddodd Kevin Parker ddiweddariad ar gydweithio ar restrau chwarae – bydd y 4 modiwl cyntaf ar gael o fis Medi.
- Mynegwyd pryder fod geiriau fel “rhestr chwarae” yn newydd yn y cwricwlwm ac nad yw pawb yn gyfarwydd â nhw, yn enwedig aelodau etholedig newydd sy’n aelodau o’r CYSAG.
- Wrth adlewyrchu ar gofnodion y cyfarfod blaenorol ym mis Mawrth – codwyd y broblem o gynnal cyfarfodydd dwyieithog ar *Microsoft Teams*. Gobeithir y bydd cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn ailgychwyn yn y dyfodol, er mwyn dod â’r 22 awdurdod lleol ynghyd.
- Cynhelir cyfarfod nesaf CCYSAGauC yn Sir Gaerfyrddin yn yr Hydref.
- Mae CYSAG Cymru wedi awgrymu newidiadau i wefan Hwb ond bydd rhaid i’r Gweinidog yn Llywodraeth Cymru eu cadarnhau. Sefydlir Panel Hwb i adolygu adnoddau ar gyfer y wefan – anfonir copi o’r adnoddau at CCYSAGauC maes o law. Bydd angen i’r Panel sicrhau fod yr holl ddeunydd ar Hwb yn cyd-fynd â syniadau newydd, neu gallai’r cynnwys gael ei dynnu oddi ar y wefan. Nodwyd fod un ymgynghoriaeth yng Nghymru yn credu nad yw Hwb yn cydymffurfio â gofynion y cwricwlwm newydd gan fod y wefan yn cynnwys gormod o fanylion a’i fod yn awgrymu beth ddylai athrawon ei wneud, sydd yn groes i egwyddorion sylfaenol y cwricwlwm, sef fod ysgolion yn penderfynu ar eu cynlluniau gwaith eu hunain.
- Derbyniwyd cyflwyniad gan Jennifer Harding Richards ar ran NAPFRE ar y bartneriaeth Consortiwm. Nodwyd fod Abertawe, Sir Gaerfyrddin a Nedd Port Talbot wedi dod at ei gilydd i ariannu Ymgynghorydd llawn amser i gefnogi’r CYSAGau.

Rhannodd Mr Chris Thomas ei bryderon am y cynnydd yn nifer y CYSAGau mewn rhannau o Gymru sy’n cydweithio i dalu ymgynghorydd annibynnol am eu harbenigedd. Dywedodd nad oes cyfle cyfartal i bob CYSAG dderbyn y cymorth y mae angen dybryd amdano.

Cyfeiriodd Mr Rheinallt Thomas at Gyfarfod Blynyddol CCYSAGauC a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2022, a chododd y pwyntiau a ganlyn:-

- Gwnaed mân newidiadau i Gyfansoddiad CCYSAGauC, a dderbyniwyd gan y CYSAGau.
- Cynhelir y Cyfarfod Blynyddol nesaf yn Sir Ddinbych ym mis Mehefin y flwyddyn nesaf.
- Gofynnwyd i CYSAG Ynys Môn gymeradwyo Tanysgrifiad Blynyddol CCYSAGauC o £480, sef tâl aelodaeth y Pwyllgor, fel y cyfeirir ato yn adroddiad y Trysorydd.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r taliad o £480, sef Tanysgrifiad Blynyddol y CYSAG i fod yn aelod o CCYSAGauC.**

Mewn perthynas â Phwyllgor Gwaith CCYSAGauC, nodwyd fod Dr Tania ap Sion wedi'i phenodi'n Gadeirydd a Mr Edward Evans yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Gwaith. Nodwyd mai dim ond 12 CYSAG ledled Cymru a bleidleisiodd ar aelodaeth y Pwyllgor Gwaith, a bod hyn yn siomedig iawn.

**PENDERFYNWYD bod yr Ymgynghorydd AG yn gwahodd Mr Phil Lord i roi trosolwg o'r adnoddau fydd ar gael ar Hwb yn y dyfodol.**

**8 I ADOLYGU AELODAETH CYSAG**

Dywedodd yr Ymgynghorydd AG y bydd angen i CYSAG Ynys Môn ystyried a ddylid ehangu aelodaeth y Pwyllgor i gynnwys aelodau o grwpiau nad ydynt yn rhai crefyddol, e.e. Dyneiddwyr, Tystion Jehofa ayb. Nodwyd fod y Dyneiddwyr wedi cyflwyno cais yn y gorffennol i ymuno â CYSAG Ynys Môn ond, pan ystyriwyd y cais, nid oedd niferoedd y Dyneiddwyr ar Ynys Môn yn ddigon mawr iddynt gael eu cynrychioli ar y CYSAG. Nodwyd fod gan y Dyneiddwyr 750 o aelodau ledled Cymru.

Nodwyd bod angen ceisio eglurder ynglŷn â'r ddeddfwriaeth bresennol cyn y gall y CYSAG adolygu ei aelodaeth gyfredol a chyn y gellir gwneud penderfyniad.

**PENDERFYNWYD fod y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a'r Ymgynghorydd AG yn cysylltu ag Adran Gyfreithiol y Cyngor i dderbyn arweiniad clir ar y ddeddfwriaeth o ran cynrychiolaeth aelodau o grwpiau nad ydynt yn rhai crefyddol ar y CYSAG.**

**9 UNRHYW FATERION ERAILL**

Cadarnhawyd y cynhelir cyfarfod nesaf y CYSAG ar 12 Hydref 2022.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.00 o'r gloch

**CYNGHORYDD NON DAFYDD**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Corn Hir

**Llangefni**
**Ynys Môn**
**LL77 7JB**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Corn Hir

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Corn Hir |
| Awdurdod lleol | Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 236 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 207 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd<br><br>*(Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%)* | 6.7% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a)<br><br>(*Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector cynradd yw 20.6%*) | 16.4% |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 0.56 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Ebrill 2017 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 08/05/2013 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad hwn | 09/05/2022 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Flynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

Fy Ysgol Leol (gov.wales)

(a) Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae gan y pennaeth weledigaeth gadarn sy'n cefnogi staff i ddatblygu'r ddarpariaeth yn llwyddiannus wrth ddiwallu anghenion dysgu pob disgybl. Mae arwyddair newydd yr ysgol: 'Ein dysgu, Ein dyfodol', yn treiddio trwy holl weithgareddau'r ysgol yn hynod effeithiol. Mae datblygu staff ac arloesi'r dulliau addysgu a dysgu yn greiddiol i'r weledigaeth, er enghraifft wrth gyflwyno Cwricwlwm i Gymru o fewn a thu hwnt i'r ysgol. Mae'r arfer effeithiol hon yn cyfrannu'n gadarn at gydweithio bwriadus rhwng staff yr ysgol a gweddill ysgolion y clwstwr.

Mae staff yn cydweithio'n hynod effeithiol er mwyn sicrhau bod disgyblion yn hapus ac yn mwynhau'r dysgu yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain wrth gefnogi lles emosiynol, iechyd a chymdeithasol pob disgybl. Maent yn arwain disgyblion yn effeithiol er mwyn iddynt ymgolli yn eu profiadau dysgu a'u mwynhau. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth yn cefnogi disgyblion i wneud penderfyniadau annibynnol am eu dysgu bob amser.

Mae staff yn defnyddio iaith gyfoethog ac yn manteisio ar bob cyfle i gefnogi disgyblion i siarad tafodiaith naturiol yr ardal leol. Mae hyn yn meithrin balchder disgyblion at y Gymraeg a'r gymuned Gymreig leol yn llwyddiannus.

Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd i drafod eu profiadau dysgu gydag arweinwyr wrth i staff barhau i ddatblygu'r arferion addysgu a dysgu, er enghraifft wrth iddynt dderbyn cefnogaeth lles yn y Cwt Clyd. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a phrofiad dysgu disgyblion wrth iddynt ddangos parch at ei gilydd ac oedolion mewn amgylchedd dysgu gynhwysol.

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud penderfynaidau annibynnol am eu dysgu

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ar ei gwaith mewn perthynas â ‘Cydweithio bwriadus rhwng ymarferwyr o fewn yr ysgol ac ysgolion y clwstwr wrth ddatblygu gweledigaeth a gweithredu cynlluniau i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru’, i’w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Yn ystod cyfnod y disgyblion yn yr ysgol, gwna rhan fwyaf ohonynt gynnydd cryf yn eu medrau o’u mannau cychwyn. Maent yn caffael gwybodaeth, yn dwysáu eu dealltwriaeth a datblygu eu medrau yn llwyddiannus mewn amrywiaeth ddiddorol o gyd-destunau dysgu.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwrando astud ar ei gilydd ac oedolion yn gyson. Mae medrau llafar llawer o ddisgyblion yn datblygu’n gyson erbyn diwedd y dosbarth derbyn. Erbyn Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf yn sgwrsio’n hyderus yn y Gymraeg am eu gwaith a’u profiadau, er enghraifft wrth iddynt greu poteli natur sydd yn hyrwyddo eu medrau lles yn llwyddiannus. Wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol, mae llawer ohonynt yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol yn y Gymraeg a’r Saesneg. Ar frig yr ysgol, mae’r rhan fwyaf yn trafod eu gwaith yn ddeallus gydag aeddfedrwydd, gan ddefnyddio geirfa gyfoethog i greu effaith, er enghraifft wrth greu clap gân sy’n hyrwyddo tafodiaith y gymuned leol.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o’r disgyblion yn datblygu’n dda. Mae’r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a seiniau yn gywir ac yn dechrau adnabod geiriau yn gynyddol hyderus. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae’r rhan fwyaf yn darllen yn ystyrlon yn unol â’u hoed a’u gallu, er enghraifft wrth ddarllen llythyrau i’r cymeriad Swyn. Wrth i fedrau darllen disgyblion hŷn yr ysgol ddatblygu, mae llawer yn darllen yn ddeallus yn y ddwy iaith. Maent yn ymarfer eu medrau darllen uwch yn gyson ac aeddfed i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau. Er enghraifft, mae disgyblion Blynyddoedd 3 a 4 yn datblygu eu medrau yn effeithiol drwy ddysgu am yr holl atyniadau sydd ar gael i ymwelwyr Ynys Môn. Ym Mlwyddyn 6, mae ddisgyblion yn cywain gwybodaeth am yr awdur T. Llew Jones fel rhan o’u gweithgareddau wrth ddathlu’r diwrnod cenedlaethol.

Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n dda. Mae disgyblion y dosbarth derbyn yn datblygu eu medrau marcio cynnar yn effeithiol wrth restru bwyd lindysyn. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae llawer yn ysgrifennu’n annibynnol at wahanol bwrpasau, gan ddechrau defnyddio geirfa ddisgrifiadol a chystrawennau addas. Er enghraifft, maent yn defnyddio ansoddeiriau creadigol wrth ysgrifennu portread am Sion y Cawr. Dros eu hamser yn yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu’n llwyddiannus. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, maent yn drafftio eu gwaith yn effeithiol ac yn gwneud defnydd pwrpasol o gymariaethau, idiomau ac ansoddeiriau i gyfoethogi eu gwaith. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ysgrifennu’n estynedig ac yn dangos ymwybyddiaeth gadarn o nodweddion ystod o ffurfiau gwahanol, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 5 ysgrifennu portread o fôr leidr.

Mae medrau mathemateg a rhifedd y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae ganddynt afael gadarn ar ffeithiau rhif a mesur ac maent yn trin arian yn gywir, er enghraifft wrth drefnu faint o arian sydd gan Brig ddyn i wario yn ystod noson tân gwyllt. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datrys problemau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn gwneud defnydd effeithiol o'r ardaloedd dysgu yn y dosbarth tu allan i

ddatrys heriau amser gan ddefnyddio'r cloc analog a digidol. Wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol, mae'r rhan fwyaf yn adeiladu’n dda ar eu dysgu blaenorol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ddulliau i gymhwyso eu medrau rhif mewn amrywiaeth ddiddorol o gyd-destunau, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 5 gyflwyno cynllun busnes ar gyfer gwerthu nwyddau mewn ffeiriau ysgol. Maent yn cymharu cost adnoddau gyda phris gwerthiant cynnyrch yn ddoeth gan ddefnyddio eu medrau’n dda wrth ddod i gasgliad am yr elw.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion yn datblygu’n gyson. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn defnyddio eu medrau yn llwyddiannus, er enghraifft wrth reoli teclyn rhaglenadwy i symud o gwmpas ardal byd natur ac wrth gwblhau siart bar i ddangos canfyddiadau ymchwiliad arnofio a suddo. Wrth symud drwy'r ysgol, mae medrau’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu’n gadarn wrth ddefnyddio ystod eang o feddalwedd digidol yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn defnyddio bas data i gofnodi damweiniau gweithwyr yn chwarel Dinorwig yn fedrus.

Mae medrau creadigol bron pob disgybl yn datblygu'n gadarn. Ym Mlwyddyn 1 a 2, maent yn defnyddio eu dychymyg yn effeithiol wrth greu ‘brechdan ych a fi’ gan ddefnyddio cynhwysion o’r ardd. Ym mlynyddoedd uwch yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn adeiladu ar eu medrau ymhellach, er enghraifft wrth iddynt ddatblygu eu medrau yn yr ardaloedd amlsynhwyraidd yn yr ardaloedd tu allan, sef yn y ‘Bwthyn Blodeuo’ a’r ardal ‘Seibiant Seiriol’.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Mae bron pob disgybl yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo’n ddiogel o fewn cymuned ddysgu gefnogol a chynhwysol. Maent yn gwybod at bwy i droi petai rhywbeth yn eu poeni. Drwy amryw ddulliau gwella lles yr ysgol, er enghraifft yr angenfilod lliwgar a’r gofrestr codi calon, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo bod staff yn cymryd eu pryderon o ddifri ac yn barod i wrando ar yr hyn sy’n bwysig iddynt.

Mae’r ymdeimlad o barch a chwrteisi sydd gan ddisgyblion at eu cyfoedion ac oedolion yn nodwedd gref. Mae bron pob disgybl yn ofalgar o’i gilydd ac yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion eu cyfoedion. Mae bron bob un yn ymddwyn yn gyson dda yn y gwersi ac yn cyd-chwarae’n hapus yn ystod amseroedd egwyl. Maent yn gwneud defnydd llawn o’r ardaloedd allanol a thir ehangach yr ysgol yn ystod eu gweithgareddau dysgu ac amseroedd egwyl. Mae gan bron pob disgybl falchder at yr iaith Gymraeg sydd yn hyrwyddo’r ymdeimlad cryf o berthyn i'w hysgol a'r gymuned leol. Mae hyn yn rhinwedd gref o fywyd a gwaith disgyblion yr ysgol.

Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymagwedd gadarnhaol at eu dysgu ac maent yn datblygu’n ddysgwyr hynod weithgar a brwdfrydig. Mae bron pob disgybl yn gwrando’n astud ar gyfarwyddiadau’r oedolion ac yn canolbwyntio’n ddiwyd ar eu gwaith yn ystod gwersi. Mae ymroddiad staff i gyflwyno dulliau sy’n codi hyder a datblygu gwydnwch disgyblion yn cyfrannu’n effeithiol at sicrhau bod y rhan fwyaf ohonynt yn dangos safon uchel o gymhelliant a diddordeb yn eu gwaith. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio’n effeithiol fel unigolion, mewn parau ac mewn grwpiau bychain, er enghraifft wrth i ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 gynllunio a thrafod pa siâp sy’n arnofio orau fel rhan o'u gwaith gwyddoniaeth.

Mae bron pob disgybl yn ymateb yn gadarnhaol i'r cyfleoedd a gânt i ddylanwadu ar beth maent yn ei ddysgu, er enghraifft drwy gyfrannu at gynllunio'r gweithgareddau ar ddechrau themâu. Trwy hyn, maent yn nodi'r hyn maent yn dymuno ei wybod a beth yr hoffent ei ddarganfod ymhellach.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn falch o gael cyfleoedd bwriadus i leisio eu barn ac i chwarae rhan allweddol yng nghymuned yr ysgol. Trwy'r amryw bwyllgorau sy'n ymwneud â'u gwaith, mae'r rhan fwyaf yn frwdfrydig a hyderus i gyfrannu syniadau a chyflwyno gwybodaeth, er enghraifft wrth i aelodau'r grŵp masnach deg drefnu stondinau i werthu'r cynnyrch i'w cyfoedion. Maent yn magu hyder i gyflwyno gwybodaeth a syniadau am wahanol agweddau o'r ysgol mewn maniffesto, sy'n dwysàu eu dealltwriaeth o ddemocratiaeth yn llwyddiannus. Dros amser, mae'r cyfleoedd gwerthfawr hyn yn atgyfnerthu eu medrau arwain, cyflwyno a chydweithio ag eraill yn effeithiol.

Mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion am werthoedd moesol a chydraddoldeb yn datblygu'n gyson. Maent yn ymdrin â thestunau fel annhegwch at eraill yn dda, er enghraifft wrth godi arian i adeiladu cartrefi a darparu adnoddau i drigolion pentref Omwambini yn Kenya. Mae'r cartrefi wedi eu henwi'n fwthyn Corn Hir a Nant y Pandy sy'n cefnogi dealltwriaeth disgyblion o faterion byd eang yn grefftus.

Mae dealltwriaeth bron pob disgybl o fwyta ac yfed yn iach, a deall effaith ymarfer corff ar eu hiechyd yn datblygu'n effeithiol. Maent yn cyfranogi'n hynod frwdfrydig mewn gwersi addysg gorfforol ac yn yr amrywiaeth o glybiau chwaraeon a hamdden sydd ar gael iddynt.. Mae gan ddisgyblion wybodaeth gadarn am ddiogelwch ar-lein drwy weithgareddau sy'n cynyddu eu hymwybyddiaeth o'r peryglon posibl. Gyda chefnogaeth pwyllgorau plant, maent yn trafod yr hyn maent yn gallu ei wneud i gadw'n ddiogel ar-lein yn synhwyrol.

Yn dilyn y pandemig, nid yw arolygwyr yn adrodd am gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod y flwyddyn academaidd 2021-2022. Yn hytrach, adroddir ar ddarpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o Faes Arolygu 4.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae athrawon yn cynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm yn fedrus. Trwy hyn, maent yn darparu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau, eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth mewn profiadau dysgu ysgogol. Er enghraifft, mae athrawon yn darparu cyfres o weithgareddau ar thema'r Ail Ryfel Byd sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. At ei gilydd, mae athrawon yn darparu ystod o weithgareddau diddorol sy'n cefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth. Mae staff yn cydweithio'n hynod ddiwyd i sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth sy'n ysgogi dygwyr i gyflawni'n dda yn eu dysgu. Mae arweinwyr yn monitro ac olrhain cynnydd disgyblion yn fedrus er mwyn addasu'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion pob disgybl.

Un o nodweddion mwyaf effeithiol y ddarpariaeth yw'r modd mae athrawon yn paratoi ar gyfer cynllunio a chyflwyno Cwricwlwm i Gymru. Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion fynegi syniadau sydd yn dylanwadu'n effeithiol ar y ddarpariaeth, er enghraifft wrth iddynt gynhyrchu adnoddau sy'n hyrwyddo

dealltwriaeth disgyblion  o egwyddorion y cwricwlwm. Mae arweinwyr yn datblygu'r weledigaeth i gyflwyno'r cwricwlwm yn strategol wrth fanteisio ar fedrau a diddordebau amrywiol staff. Mae’r staff yn cydweithio'n fedrus â'i gilydd mewn timau i ddatblygu dulliau addysgu a dysgu blaengar sydd wedi eu seilio  ar ymchwil addysgol gyfredol. Mae’r arfer hon o fewn yr ysgol yn cael effaith ehangach ar weddill ysgolion y clwstwr wrth iddynt gydweithio’n llwyddiannus a myfyrio'n bwrpasol tra’n datblygu a mireinio eu harferion. O ganlyniad, mae athrawon yn hyrwyddo dulliau addysgu a dysgu mewn diwylliant cefnogol ac adeiladol.

Yn ddiweddar, mae athrawon yn gwneud defnydd hynod effeithiol o'r ‘wal weithio’ i annog dysgwyr i gyfranogi ymhellach yn eu dysgu. Er enghraifft, mae athrawon yn hybu disgyblion i ryngweithio'n bwrpasol gyda'r waliau wrth iddynt ddatblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu. Trwy hyn, mae disgyblion yn defnyddio'r waliau yn fedrus i'w cefnogi i adeiladu ar ddysgu blaenorol ac i wneud cynnydd yn eu medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth.

Mae gan bob aelod o staff ddisgwyliadau uchel sy’n ennyn parch a chyfranogiad uchel y disgyblion yn eu dysgu. Mae medrau ieithyddol pob aelod o staff yn gryfder ac maent yn arddel tafodiaith leol er mwyn cyfoethogi iaith a magu balchder disgyblion at Gymraeg naturiol yr ardal, er enghraifft wrth i ddisgyblion ddefnyddio’r eirfa dafodieithol fel ‘cae sgwâr’ a ‘lefran’. Mae hyn yn elfen nodedig o’r ysgol sy'n dwysàu balchder disgyblion o'r Gymraeg yn lleol ac yn y gymuned ehangach.

Mae’r amgylchedd dysgu’n ddeniadol sy’n ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn llwyddiannus. Mae ardaloedd disgyblion ieuengaf yr ysgol yn hybu eu medrau creadigol a datrys problemau yn fedrus wrth i staff gyflwyno egwyddorion y cyfnod sylfaen yn effeithiol. Mae’r egwyddorion hyn yn cael eu meithrin a’u datblygu yn nosbarthiadau disgyblion hynaf yr ysgol sy'n eu cefnogi i gydweithio'n effeithiol wrth ymgymryd â gweithgareddau cyfoethog ar draws y meysydd dysgu. O ganlyniad, mae’r dulliau addysgu a dysgu cyson yn esblygu’n fedrus i annog disgyblion i ddechrau cymryd perchnogaeth dros eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw’r ddarpariaeth yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion wneud penderfyniadau annibynnol am eu dysgu bob amser.

Mae staff yn cynnig adborth llafar adeiladol sy'n cefnogi disgyblion i wybod beth yw’r cam nesaf yn eu dysgu. Trwy rannu’r disgwyliadau ar ddechrau gweithgareddau, mae disgyblion yn derbyn canllawiau cyson gan athrawon sy’n eu cefnogi i wybod beth sy’n ddisgwyliedig ohonynt wrth gyflawni eu gwaith. Yn yr arfer orau, mae athrawon yn darparu cyfleoedd bwriadus i ddisgyblion gydweithio â phartner i drafod safon eu gwaith, gan gynnig adborth adeiladol i’w gilydd. Defnyddir ystod o ddulliau pwrpasol i gefnogi disgyblion wrth gyflawni gweithgareddau. Er enghraifft, mae athrawon yn defnyddio apiau a meddalwedd digidol yn grefftus i arwain disgyblion i wella ansawdd eu gwaith. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall y camau nesaf sydd eu hangen arnynt i lwyddo.

Mae athrawon yn darparu gwybodaeth briodol i rieni am gynnydd eu plant. Darperir cyflwyniadau priodol iddynt am ymddygiad derbyniol eu plant ac am y modd maent yn gallu cefnogi eu plant gartref, er enghraifft wrth ddatblygu medrau darllen. Mae arweinwyr yn rhannu gwybodaeth amserol gyda rhieni trwy ddulliau aml-gyfrwng yn effeithiol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar sy'n hyrwyddo ymddygiad da, cwrteisi a pharch ar gyfer pob un disgybl. Mae'r berthynas waith adeiladol a chyfeillgar rhwng staff a disgyblion yn nodwedd gref o'r ysgol. Caiff hyn ei adlewyrchu yn agweddau cadarnhaol disgyblion at fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r staff yn cefnogi anghenion lles emosiynol, iechyd a chymdeithasol pob disgybl yn hynod effeithiol er mwyn eu cefnogi i ymgysylltu'n gadarnhaol â'u dysgu, ac elwa ar y cyfleoedd pwrpasol a ddarperir ar eu cyfer. Enghraifft gadarn o hyn yw'r modd mae'r cymhorthydd lles yn darparu cefnogaeth hynod fuddiol i ddisgyblion trwy raglenni cymorth sy'n aml yn cael eu cyflwyno yn hafan y Cwt Clyd. Mae staff cymorth yn darparu cefnogaeth ystyriol ar gyfer meithrin a datblygu lles emosiynol a chorfforol disgyblion. Mae cefnogaeth y cydlynydd anghenion  dysgu ychwanegol (CADY) wrth arwain newidiadau o fewn y maes anghenion dysgu ychwanegol yn hynod effeithiol o fewn yr ysgol ac yn ehangach.

Mae staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac yn cynnig darpariaeth gyflawn i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, er enghraifft wrth ddarparu syniadau ymarferol er mwyn cefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn eu medrau. Mae arweinwyr yn olrhain cynnydd y disgyblion hyn mewn perthynas â'u targedau yn eu cynlluniau unigol. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i gyfrannu at eu proffiliau cryno sy'n sicrhau bod eu llais yn rhan ganolog o'r broses. Darperir gwybodaeth fuddiol i rieni am yr hyn mae eu plant yn ei gyflawni yn yr ysgol, sy'n eu cefnogi i atgyfnerthu'r medrau gyda'u plant gartref. Mae arweinwyr yn manteisio ar wasanaethau aml-asiantaethol yn fedrus wrth gynnig cymorth i ddysgwyr sydd ag anghenion dysgu penodol, er enghraifft drwy wasanaeth arbenigol 'Teulu Môn' sy'n darparu cefnogaeth hynod fuddiol i ddisgyblion a'u teuluoedd.

Mae arweinwyr yn hybu ac yn annog disgyblion i fynegi eu barn am y ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig mewn trefniant pwyllgorau plant. Er enghraifft, mae'r 'dreigiau doeth' yn hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg yn hynod effeithiol sy'n eu hybu i ymfalchïo yn  iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru. Caiff agweddau ysbrydol, moesol a chymdeithasol eu cyflwyno mewn gwasanaethau addoli lle dethlir pwysigrwydd amrywiaeth, parch a goddefgarwch o fewn y gymuned leol a'r byd ehangach yn briodol. Yn ogystal, mae'r grŵp elusennol yn cynnal cyfres o weithgareddau sy'n codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd hawliau a chydraddoldeb dynol yn effeithiol. Mae hyn, yn ei dro, yn meithrin dinasyddion gwybodus a chyflawn, er enghraifft wrth ddwysàu dealltwriaeth disgyblion o faterion pwysig fel gwrth-hiliaeth.

Mae athrawon yn annog disgyblion i ddefnyddio'u dychymyg ac ymgysylltu â'r celfyddydau mynegiannol yn effeithiol, er enghraifft wrth i ddisgyblion efelychu gwaith artistiaid lleol. Mae athrawon yn cynnig cyfleoedd cyfoethog sy'n annog disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n meithrin medrau celfyddydol, chwaraeon a hamdden. Er enghraifft, mae côr yr ysgol yn perfformio yn y gwasanaeth sy'n cyfoethogi'r ymdeimlad o naws gynhwysol yr ysgol. Caiff disgyblion gyfleoedd cyson i fod yn aelodau o dimau pêl rwyd, pêl droed, athletau a rygbi'r ysgol er enghraifft, ac mae'r timau'n cymryd rhan mewn twrnameintiau a chystadlaethau lleol yn gyson. Mae hyn yn dwysáu dealltwriaeth disgyblion o bwysigrwydd ymarfer corff a byw yn iach yn dda. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd cyfoethog i ddatblygu eu medrau creadigol, gyda'r gwaith celf yn cael ei ddathlu'n ddeniadol ar draws yr ysgol.

Mae diwylliant ac ymagweddau cyson gan yr ysgol tuag at ddiogelwch a lles disgyblion, sy'n cynnwys diogelwch ar-lein. Mae'r trefniadau diogelu yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder. Mae arweinwyr ac athrawon yn monitro presenoldeb disgyblion mewn trefniant perthnasol wrth gydweithio'n agos gyda rhieni ac asiantaethau allanol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n cael ei gwireddu'n llwyddiannus fel rhan annatod o weithgareddau dyddiol yr ysgol. Mae darparu profiadau cyfoethog i fodloni anghenion lles a dysgu pob disgybl mewn amgylchedd dysgu sy'n meithrin y Gymraeg ac yn hyrwyddo balchder disgyblion at Ynys Môn a Chymru yn greiddiol i'r weledigaeth. Mae datblygiadau addysgol diweddar, er enghraifft wrth gynllunio a chyflwyno Cwricwlwm i Gymru, yn cyfrannu'n fuddiol at esblygu'r weledigaeth ymhellach trwy ail-lunio arwyddair yr ysgol: 'Ein dysgu, Ein dyfodol'. O ganlyniad, mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol at annog disgyblion, staff a holl bartneriaid yr ysgol i berchnogi a gwireddu'r weledigaeth gyda balchder.

Mae arweinwyr yn darparu cyfleoedd buddiol i'r pwyllgorau plant ddatblygu eu medrau arwain wrth iddynt gyflwyno a chynnig syniadau am wahanol agweddau o'r ddarpariaeth, er enghraifft wrth iddynt addasu'r polisi adborth. Maent yn cael cyfleoedd i leisio eu barn fel rhan o ddatblygiadau Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn cefnogi athrawon i addasu'r dulliau addysgu a dysgu er mwyn ymateb i anghenion dysgu'r disgyblion. Trwy hyn, mae disgyblion yn parchu staff gan fod eu llais yn cael effaith gadarnhaol ar brofiadau holl gymuned yr ysgol.

Un o nodweddion nodedig yr ysgol yw brwdfrydedd a disgwyliadau uchel y pennaeth a'r staff i addasu'r dulliau addysgu a dysgu mewn diwylliant agored o arloesi. Maent yn cydweithio'n hynod lwyddiannus yn lleol ac ar draws rhanbarth ysgolion y gogledd i dreialu a datblygu arferion effeithiol er mwyn cryfhau ymhellach y ddarpariaeth ar draws yr ysgol. Maent yn rhannu'r syniadau mewn dull electronig fel sbardun i drafodaethau staff fel rhan o'r arlwy dysgu proffesiynol. Fel datblygiad i'r trefniant hwn, mae Grŵp Taith Cwricwlwm i Gymru Llangefni, sef clwstwr o ysgolion lleol, wedi sefydlu gwefan er mwyn cefnogi staff i gyfrannu syniadau a chydweithio'n rhagweithiol wrth baratoi at gynllunio a chyflwyno'r cwricwlwm. Mae'r cydweithio hwn i ddatblygu'r weledigaeth ac esblygu'r dulliau addysgu a dysgu yn cael ei gyflwyno'n ymarferol i holl staff y clwstwr, er enghraifft wrth i staff yr ysgol ddarparu cyflwyniadau mewn ffair arddangos arferion da. O ganlyniad, mae'r cydweithio hwn yn cyfrannu'n hynod gadarn at ddarparu cyfleoedd a phrofiadau bwriadus i staff ddatblygu'n broffesiynol.

Mae gan staff swydd ddisgrifiadau manwl, gyda threfniadau rheoli perfformiad yn cael eu cyflawni'n effeithiol mewn dull ymarferol a chyson. Defnyddir dull effeithiol sy'n cyfrannu'n fwriadus at gefnogi athrawon i weithredu a chyflawni blaenoriaethau personol ac ysgol fel rhan o'u datblygiad proffesiynol. Mae'r pennaeth yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i bob aelod o staff wella eu harfer gan eu cefnogi'n llwyddiannus i arwain gwahanol brosiectau. Er enghraifft, mae'r CADY wedi manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol cyson sydd wedi ei harfogi i arwain ar drefniadau anghenion dysgu ychwanegol newydd yn hyderus o fewn a thu hwnt i'r ysgol. Mae staff yn manteisio ar gyfleoedd buddiol a ddarperir gan bartneriaid yr ysgol wrth gyfrannu at wahanol brosiectau, er enghraifft wrth gydweithio â phrifysgol

leol i ddarparu gwell profiad i ddisgyblion wrth iddynt drosglwyddo o’r ysgol gynradd i’r uwchradd.

Mae’r corff llywodraethol yn deall ac yn cyflawni ei ddyletswyddau a’i gyfrifoldebau yn llwyddiannus ac yn cefnogi’r pennaeth a’r staff yn effeithiol. Mae adnabyddiaeth llywodraethwyr o holl agweddau’r ysgol yn gadarn ac maent yn herio’r pennaeth a’r staff fel cyfaill beirniadol yn fedrus. Er enghraifft, mae aelodau’r is-bwyllgor iechyd a diogelwch yn cynnal taith o amgylch yr ysgol gyda grŵp o ddisgyblion er mwyn iddynt oll gyfrannu ac awgrymu gwelliannau a sicrhau’r diogelwch gorau yn yr amgylchedd dysgu. Trwy hyn, mae gan y llywodraethwyr wybodaeth fanwl a chyfredol am wahanol agweddau o’r ysgol, er enghraifft diogelwch ac anghenion lles emosiynol disgyblion yn dilyn y cyfnod pandemig. Yn ogystal, maent yn craffu ar y modd mae’r ysgol yn hyrwyddo byw’n iach a rhannu diwylliant diogelu gyda’r holl bartneriaid yn briodol. Maent yn cefnogi’r pennaeth yn effeithiol wrth gynllunio a monitro gwariant cyllid yr ysgol, gan gynnwys grant datblygu disgyblion, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn cefnogi a diwallu anghenion pob disgybl. Maent yn blaengynllunio gwariant yn ofalus, er enghraifft wrth ddechrau ystyried prynu adnoddau er mwyn symud i’r adeilad newydd.

Mae’r pennaeth a’r staff yn adnabod cryfderau a gwendidau’r ysgol yn dda. Maent yn cydweithio’n hynod effeithiol er mwyn caffael gwybodaeth am gynnydd a chyflawniadau'r disgyblion. Mae’r prosesau hunanwerthuso yn fanwl ac yn esgor ar flaenoriaethau realistig. Defnyddir apiau a dulliau electronig i gaffael gwybodaeth a barn partneriaid sy’n cael ei choladu mewn modd effeithiol er mwyn miniogi’r blaenoriaethau wrth gynllunio ar gyfer gwella. Mae gan yr ysgol hanes da o wneud a chynnal gwelliannau sy’n arwain at effaith gadarnhaol ar les a dysgu disgyblion dros gyfnod, er enghraifft wrth ddatblygu medrau TGCh disgyblion.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol/aelodau’r pwyllgor rheoli’ trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/07/2022

This page is intentionally left blank

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Cemaes

**Cemaes**
**Ynys Môn**
**LL67 0LB**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Cemaes

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Cemaes |
| Awdurdod lleol | Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 73 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 59 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 6 |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim, dros gyfartaledd o dair blynedd<br><br>*(Canran cenedlaethol y disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol yn y sector cynradd dros y tair blynedd diwethaf yw 21.3%)* | 21.8% |
| Canran y disgyblion oedran ysgol statudol sydd ag anghenion addysgol arbennig (a)<br><br>(*Canran cenedlaethol y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn y sector cynradd yw 20.6%*) | 32.2% |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sy'n siarad Cymraeg yn y cartref | 33.9% |
| Canran y disgyblion o oedran ysgol statudol sydd â Saesneg fel iaith ychwanegol | * |
| Dyddiad y penodwyd y pennaeth | Medi 2017 |
| Dyddiad yr arolygiad Estyn blaenorol (os yw'n berthnasol) | 16/10/2012 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad hwn | 03/05/2022 |
| Gwybodaeth ychwanegol | |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Flynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

Fy Ysgol Leol (gov.wales)

(a) Mae'r term 'anghenion addysgol arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Cemaes yn ysgol hapus, ofalgar a chartrefol ble mae'r disgyblion yn dangos ymagweddau cadarnhaol at eu dysgu. Mae bron pob disgybl yn dangos balchder wrth siarad am eu hysgol a'u cymuned. Nodwedd gref o fywyd yr ysgol yw'r ffordd mae disgyblion yn ymddwyn mor gadarnhaol ac aeddfed at eraill. Maent yn gwrtais a meddylgar ac yn dangos parch a gofal tuag at ymwelwyr a'u cyfoedion. Mae gan yr holl staff berthynas waith effeithiol â'r disgyblion sy'n hyrwyddo agweddau da at ddysgu a lles, yn ogystal â meithrin awyrgylch cefnogol a chynhwysol.

Mae'r Gymraeg yn newydd i'r rhan fwyaf o ddisgyblion wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol. Yn gyffredinol, mae'r plant ieuengaf yn gwneud cynnydd araf yn eu medrau llafar yn ystod eu blynyddoedd cyntaf yn yr ysgol. Er hyn, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau llafar ac ysgrifennu yn addas wrth symud drwy'r ysgol. Mae eu medrau darllen, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ynghyd â'u medrau corfforol yn datblygu'n gadarn o'u mannau cychwyn. Er hyn, nid yw athrawon bob tro'n sicrhau bod pob disgybl yn cael eu herio'n llawn nac yn adeiladu ar eu medrau yn ddigon effeithiol ar draws yr ysgol.

Mae arweinyddiaeth y pennaeth yn cyfrannu'n werthfawr at sefydlu ethos tîm cryf ac ymdeimlad o berthyn ymysg y staff. Maent wedi cydweithio'n llwyddiannus â'i gilydd i greu gweledigaeth bwrpasol ac yn ymgymryd â datblygiad personol buddiol er mwyn cefnogi disgyblion. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol i'r pennaeth a'i staff. Fodd bynnag, nid yw trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella'r ysgol yn ddigon effeithiol er mwyn mynd i'r afael â meysydd pwysig. O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr ddealltwriaeth ddigon cadarn o sefyllfa gyfredol yr ysgol o'r hyn sydd yn dda a beth sydd angen ei wella.

## Argymhellion

A1 Gwella medrau llafar ac ysgrifennu disgyblion

A2 Sicrhau bod yr addysgu'n darparu her briodol i ddiwallu anghenion pob disgybl

A3 Cynllunio'n fwriadus i ddarparu cyfleoedd buddiol a chydlynys i ddisgyblion gymhwyso'u medrau ar draws y cwricwlwm

A4 Gwella prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol llawer o'r disgyblion yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed, heblaw yn y Gymraeg ble mae'r iaith yn newydd i'r rhan fwyaf ohonynt. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd digonol yn eu dysgu ac yn cyflawni'n briodol.

Mae bron bob disgybl yn gwrando'n dda ar oedolion ac ar ei gilydd. Yn gyffredinol, mae medrau llafar Cymraeg disgyblion ieuengaf yr ysgol yn araf i ddatblygu wrth iddynt gaffael iaith newydd. Er hyn, mae'r mwyafrif yn dangos dealltwriaeth o'r iaith wrth geisio trafod eu dysgu a'u chwarae, er enghraifft wrth ddefnyddio geirfa syml fel 'gwag', 'hanner llawn' a 'bron yn llawn' wrth drafod faint o hylif sydd mewn jwg. Ym Mlwyddyn 2, mae llawer o ddisgyblion yn ehangu eu geirfa yn briodol ac yn siarad gyda mwy o rugldeb a hyder. Wrth symud drwy'r ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion hŷn yn datblygu eu medrau llafar yn briodol yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn dechrau cyfrannu'n bwrpasol mewn trafodaethau dosbarth wrth fynegi eu barn wrth geisio gwerthu Ynys Môn fel atyniad i dwristiaid.

Mae medrau darllen y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dangos diddordeb mewn llyfrau a storïau, gan ymateb yn briodol i'r cynnwys. Erbyn Blwyddyn 2, maent yn adeiladu ar eu dealltwriaeth o strategaethau darllen yn llwyddiannus, gan ddarllen brawddegau gyda pheth cywirdeb, er enghraifft wrth iddynt ddarllen gwybodaeth i ddarganfod ffeithiau am enwogion Cymru. Mae llawer o'r disgyblion hŷn yn darllen yn fwriadus mewn cyd-destunau amrywiol. Maent yn adnabod prif nodweddion testunau yn llwyddiannus gan ddefnyddio'u medrau i gywain gwybodaeth oddi wrth amryw ffynonellau, er enghraifft wrth ymchwilio i gwestiynau am chwedl Llyn y Fan.

Mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n gadarn wrth iddynt ymarfer eu medrau modur mân trwy wehyddu a gwneud llysiau allan o does. Ym Mlwyddyn 2, mae llawer yn dechrau ysgrifennu mewn brawddegau syml gan ddangos dealltwriaeth gadarn o reolau atalnodi. Maent yn dechrau ysgrifennu mewn cyfres o gyd-destunau gwahanol, er enghraifft wrth ysgrifennu disgrifiad o ble yn y byd yr hoffent ymweld a pham. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yr ysgol yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn briodol. Yn gyffredinol, maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o batrymau sillafu, a sut i baragraffu ac atalnodi. Maent yn deall nodweddion gwahanol ffurfiau ysgrifennu yn briodol ac yn addasu arddull a strwythur i wahanol destunau yn addas, er enghraifft wrth ysgrifennu araith Bendigeidfran o'r Mabinogi. Er hyn, yn gyffredinol ar draws yr ysgol, nid yw'r medrau ysgrifennu yn datblygu'n ddigon cryf gan ystyried oed a gallu'r disgyblion, yn enwedig wrth ysgrifennu darnau estynedig.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion ieuengaf yn gwneud cynnydd cadarn yn eu datblygiad mathemategol. Ym Mlwyddyn 2, mae ganddynt afael ddeallus ar ffeithiau siâp, rhif a mesur, er enghraifft wrth ddefnyddio unedau safonol i fesur cyfaint hylifau. Ar frig yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth sicr o gysyniadau mathemategol. Maent yn cymhwyso eu medrau rhifedd yn effeithiol ar draws y

cwricwlwm, er enghraifft wrth greu a dadansoddi graffiau hinsawdd Cymru gydag Awstralia.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn cyfuno eu medrau'n llwyddiannus, er enghraifft wrth ddefnyddio cyfrifiadur llechen i greu animeiddiad o stori'r Pasg. Mae'r disgyblion hynaf yn adeiladu'n gadarn ar y sylfaen hon trwy greu a golygu fideo fel rhan o'u prosiect 'o'r pridd i'r plât'.

Ar draws yr ysgol, mae medrau datrys problemau a chreadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n addas. Mae disgyblion ieuengaf yr ysgol yn dechrau rhagfynegi ac arbrofi i ddarganfod pa ffrwythau sy'n arnofio a suddo gyda pheth cywirdeb. Ym Mlwyddyn 2, mae'r disgyblion yn cynllunio a chreu modelau o Ynys Môn yn fedrus gan ddefnyddio pren a hoelion i wneud amlinelliad o'r ynys, fel rhan o brosiect mentergarwch. Ar frig yr ysgol, mae disgyblion yn llwyddo i ddefnyddio'u medrau rhifedd yn briodol i ddatrys amrywiaeth cyfyng o heriau.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn trwy amrywiaeth o brofiadau a gweithgareddau buddiol. Mae disgyblion ieuengaf yr ysgol yn datblygu eu medrau mudol man yn llwyddiannus, er enghraifft wrth ddefnyddio offer celf amrywiol i greu swigod o amryw siapiau. Yn ogystal, mae disgyblion hŷn yr ysgol yn datblygu eu medrau corfforol yn gadarn drwy gymryd rhan mewn amryw weithgareddau chwaraeon neu fel rhan o'u themâu, er enghraifft wrth ddysgu dawns werin fel rhan o'u hwythnos 'Cymru Cŵl'.

**Lles ac agweddau at ddysgu**

Un o nodweddion cryfaf yr ysgol yw'r awyrgylch gartrefol sy'n bodoli a'r ffordd garedig ac addfwyn mae llawer o'r disgyblon hŷn yn gofalu am eu cyfoedion iau. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at natur gynhwysol ac ethos gofalgar yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda tu fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth. Maent yn gwrtais a meddylgar ac yn dangos parch a gofal tuag at eu cyfoedion ac ymwelwyr. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau'r ysgol ac yn ei disgrifio fel lle hapus a chyfeillgar, gan roi statws a bri i'r rheolau aur sydd ganddynt ar waith. Mae bron pob disgybl yn dangos balchder wrth siarad am eu hysgol a'u cymuned ac yn mwynhau dysgu am yr ardal leol, er enghraifft wrth greu stori ddychmygol gan ddefnyddio lluniau chwedlau o'r pentref fel sbardun a chreu map meddwl o'u hoff le yng Nghemaes.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos ymagweddau cadarnhaol at eu dysgu. Maent yn dangos diddordeb yn eu gwaith, yn canolbwyntio am gyfnodau estynedig ac yn barod i ddyfalbarhau er mwyn llwyddo. Yn ogystal, mae'r disgyblion ieuengaf yn ymgymryd â'r gweithgareddau yn yr ardaloedd dysgu a chwarae yn annibynnol, gan ymarfer a datblygu eu medrau yn llwyddiannus. Er enghraifft, wrth ymarfer eu medrau mudol mân a'u Cymraeg yn y gegin fwd, wrth iddynt greu powlen o fwyd gan ddefnyddio gwahanol lysiau a ffrwythau.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd. Maent yn ymfalchïo yn y cyfleoedd a gânt i wella'u ffitrwydd o fewn y gwersi a sesiynau chwaraeon eraill. Yn ogystal, mae disgyblion yn manteisio ar gyfleoedd buddiol i dyfu, gwerthu a choginio llysiau

eu hunain ac mae thema'r cyfnod sylfaen yn frith o gyfleoedd i drafod a blasu bwydydd iach.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gyngor petai rhywbeth yn eu poeni. Mae gan y rhan fwyaf ymwybyddiaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar lein a gwyddant am bwysigrwydd diogelu eu cyfrineiriau.

Mae aelodau'r cyngor ysgol yn falch o'u rôl ac yn cymryd eu dyletswyddau o ddifri. Maent yn hapus bod oedolion yn yr ysgol gwrando ar eu barn. Fodd bynnag, nid yw rôl y cyngor wedi datblygu'n llawn yn dilyn cyfnod y pandemig ac nid ydynt yn cael dylanwad amlwg ar fywyd a gwaith yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn manteisio'n llawn ar gyfleoedd addas i awgrymu beth yr hoffent ei ddysgu o fewn thema'r dosbarth ac yn cynnig eu trywyddau dysgu eu hunain, lle bo'n briodol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn cynnig cwestiynau ymholi ar ddechrau thema ac mae'r disgyblion hynaf yn dechrau cynnig syniadau am yr hyn yr hoffent ddysgu o fewn yr ardaloedd dysgu. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at eu hagwedd at fywyd a gwaith yr ysgol ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos brwdfrydedd a pherchnogaeth dros eu dysgu eu hunain.

Mae mwyafrif y disgyblion yn gwerthfawrogi ac yn ymateb i adborth gan oedolion a'u cyfoedion ar lafar yn briodol. Yn gyffredinol, mae disgyblion yn trafod gwaith ei gilydd yn addas gan gyfeirio at y meini prawf llwyddiant yn briodol. Fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth o'r dysgwyr yn symud y dysgu yn ei flaen drwy ymateb i sylwadau'r athro a chywiro eu gwaith.

Oherwydd pandemig y coronafeirws, ni fydd arolygwyr yn adrodd ar gyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod y blynyddoedd academaidd 2020-2021 a 2021-2022. Fodd bynnag, bydd arolygwyr yn ystyried darpariaeth yr ysgol ar gyfer monitro a gwella presenoldeb fel rhan o faes arolygu 4 (gofal, cymorth ac arweiniad.)

## Addysgu a phrofiadau dysgu

Mae gan staff berthynas waith effeithiol â'r disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch cefnogol a chynhwysol. Maent yn defnyddio technegau holi amrywiol yn gadarn er mwyn gwirio dealltwriaeth y disgyblion. Mae'r holl staff yn annog y disgyblion i gydweithio'n effeithiol â'i gilydd i gwblhau tasgau a datrys problemau, er enghraifft wrth i ddisgyblion ar frig yr ysgol greu pontydd fel rhan o stori Bendigeidfran. Maent yn gosod amcanion dysgu clir ac yn defnyddio ystod o adnoddau buddiol i ennyn diddordeb disgyblion, yn enwedig drwy wneud defnydd pwrpasol o ardaloedd dysgu a chwarae allanol.

Ar draws yr ysgol, mae'r athrawon yn cynllunio profiadau i ddiwallu anghenion y disgyblion yn briodol. Er eu bod yn olrhain cynnydd disgyblion yn rheolaidd, prin yw'r defnydd o'r wybodaeth hon i adnabod camau nesaf yn eu dysgu. O ganlyniad, nid yw athrawon bob amser yn teilwra'r profiadau yn ddigon effeithiol er mwyn herio pob disgybl i wneud y cynnydd gorau a datblygu eu dysgu'n llawn.

Mae'r athrawon a chymorthyddion yn modelu'r Gymraeg yn effeithiol ac yn manteisio ar gyfleoedd buddiol i gyfoethogi iaith y disgyblion, er enghraifft trwy ganu rhigymau,

hwiangerddi a chaneuon cyfarwydd. Er hyn, nid yw disgwyliadau staff o ddefnydd y disgyblion o'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd yr ysgol yn ddigon cyson. O ganlyniad, nid yw disgyblion yn ymdrechu bob tro i ymateb neu gyfathrebu trwy'r Gymraeg, yn enwedig y rhai ieuengaf.

Nid yw’r ysgol yn cynllunio’n ddigon effeithiol ar gyfer datblygu medrau’r disgyblion yn gynyddol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, nid yw’r cynlluniau presennol yn sicrhau cysondeb na dilyniant o flwyddyn i flwyddyn ac nid yw profiadau dysgu bob tro’n darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion gymhwyso’u medrau yn ddigonol. Er hyn, mae’r athrawon yn paratoi profiadau dysgu sy’n darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion ddatblygu elfennau o lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn addas ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, wrth i ddisgyblion hynaf yr ysgol ddwyn i gof hanes trychineb llong y ‘Royal Charter’ a defnyddio'r wybodaeth i fapio'r fordaith. Mae disgyblion ieuengaf yr ysgol yn cael cyfleoedd buddiol i gymhwyso medrau’n annibynnol o fewn yr ardaloedd dysgu a chwarae. Mae gan ddisgyblion fynediad cyson i’r ardaloedd allanol ac maent yn elwa’n fawr o weithgareddau diddorol y tu mewn a thu allan i’r dosbarth. Enghraifft dda o hyn yw’r cyfle i ddisgyblion greu llysiau yn yr ardal hydrin a pherfformio fel cymeriad allan o lyfr 'Swpertaten'.

Mae’r ysgol wedi cychwyn arbrofi wrth baratoi ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru wrth edrych ar y datganiadau o’r hyn sy’n bwysig a thrwy gychwyn ymgyfarwyddo â’r camau cynnydd.

**Gofal, cymorth ac arweiniad**

Mae’r holl staff yn cydweithio’n llwyddiannus i greu ethos hapus, gofalgar a chynhwysol yn yr ysgol. Maent yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn effeithiol. Mae cyfnodau cyd-addoli gwerthfawr yn sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion ystyried safbwyntiau eraill, yn ogystal â rhoi cyfle iddynt fyfyrio ar sut y gellir edrych ar ôl ei gilydd. Mae’r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar foesau crefyddol ac ar eu credoau a’u gwerthoedd eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn cael cyfle i astudio amrywiaeth eang o grefyddau megis Hindŵaeth ac Iddewiaeth a chydweithio ar weithgareddau hynod ddiddorol fel creu lamp Diva a phatrymau Rangoli a Mendi.

Mae’r ysgol yn meithrin gwerthoedd cytûn fel gonestrwydd, tegwch a chyfiawnder yn arbennig o dda ymhlith y disgyblion. Caiff hyn ei amlygu yn agwedd ac ymddygiad cadarnhaol y disgyblion o amgylch yr ysgol. Mae’r disgyblion yn cael eu hannog o oedran cynnar i ddweud wrth oedolyn dibynadwy os ydynt yn poeni neu’n pryderu am rywbeth. Mae'r posteri pwrpasol sy'n cael eu harddangos o gwmpas yr ysgol ynghyd â gwersi tymhorol gan swyddog cyswllt heddlu yn cefnogi hyn yn dda. Yn ogystal, drwy gyfnod y pandemig, mae’r ysgol wedi parhau i weithio gydag asiantaethau allanol er mwyn cynnal a chefnogi lles a diogelwch disgyblion yn llwyddiannus.

Cynhelir gweithgareddau ysgol-gyfan pwrpasol er mwyn hybu’r Gymraeg a Chymreictod ac ennyn balchder y disgyblion yn eu diwylliant, a’u hetifeddiaeth, er enghraifft trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi drwy gymryd rhan yn y parêd dalgylchol. Mae data’r Siarter Iaith yn amlygu bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn falch eu bod yn siarad Cymraeg, ond er hyn, anghyson yw’r defnydd o'r iaith gan ddisgyblion ar draws yr ysgol.

Mae trefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach, yn ogystal â chadw'n heini. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth disgyblion o faterion sy'n ymwneud â'u hiechyd a'u lles. Mae'r disgyblion yn cael ffrwyth a llefrith yn ddyddiol ac mae'r disgyblion ieuengaf yn ymchwilio i fwydydd iach. Mae'r ysgol hefyd yn cynnig cyfleoedd buddiol i annog disgyblion i gymryd rhan mewn chwaraeon a hamdden, er enghraifft drwy sesiynau chwaraeon wythnosol gan yr Urdd.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau cadarn ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae cynlluniau datblygu unigol a phroffiliau un tudalen y disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cynnwys targedau clir a phwrpasol sy'n cyfateb i anghenion y disgyblion.. Mae'r staff yn monitro ac olrhain cynnydd disgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol yn briodol. Mae'r wybodaeth hon yn eu galluogi i ddarparu ymyraethau addas i ddiwallu anghenion unigolion. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol â nifer o asiantaethau arbenigol fel tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol Penodol yr awdurdod lleol, er mwyn darparu cymorth ac arweiniad gwerthfawr i ddisgyblion a'u rhieni.

Mae'r staff wedi llwyddo i ddarparu cymorth emosiynol pwrpasol ar gyfer y disgyblion drwy gydol y pandemig. Yn ogystal, maent yn gwneud defnydd rheolaidd o'r ystafell bwrpasol, 'y nyth', sydd ar gael ar gyfer cynnal grwpiau ymyrraeth ac i hyrwyddo lles staff. Maent hefyd yn gwneud defnydd effeithiol o ystod o strategaethau a darpariaeth bwrpasol i gefnogi lles disgyblion, gan gynnwys defnyddio coeden teimladau i drafod eu teimladau wrth iddynt gyrraedd yn y bore.

Mae cyfathrebu priodol gyda'r rhieni, a darperir cyfleoedd tymhorol i athrawon rannu gwybodaeth â nhw drwy gyfarfodydd ac adroddiadau. Mae'r staff yn dda iawn am ymateb i unrhyw bryderon yn syth.

Mae gan yr ysgol ddiwylliant cryf o ddiogelu gyda'r holl staff yn ymgymryd â hyfforddiant pwrpasol a thrafodaethau staff rheolaidd. Mae trefniadau'r ysgol i gadw disgyblion yn ddiogel yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae'r pennaeth wedi sefydlu diwylliant cefnogol sy'n annog staff i ymgymryd â chyfleoedd buddiol i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u medrau. Mae ei harweinyddiaeth yn cyfrannu'n werthfawr at sefydlu ethos tîm cryf ac ymdeimlad o berthyn ymysg y staff. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob un yn angerddol dros yr ysgol a'i chymuned. Mae trefniadau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad staff, sy'n sicrhau bod eu hanghenion a'r ysgol gyfan yn cael sylw priodol wrth gynllunio eu datblygiad personol. Enghraifft dda o hyn yw'r hyfforddiant pwrpasol maent wedi ei gael yn ystod pandemig, yn cynnwys cyrsiau ar sut i gefnogi lles disgyblion yn ystod y cyfnod anodd hwn. O ganlyniad, mae'r staff wedi cydweithio'n llwyddiannus â'i gilydd dros gyfnodau clo y pandemig i gefnogi disgyblion a'u teuluoedd trwy ddarparu profiadau dysgu ar-lein a chefnogaeth bellach yn ôl yr angen.

Mae'r pennaeth wedi cydweithio ag ystod o randdeiliaid i greu gweledigaeth bwrpasol sy'n adlewyrchu egwyddorion a thaith yr ysgol tuag at y dyfodol. Er yn ddyddiau cynnar o ran y paratoadau ar gyfer Cwricwlwm i Gymru, mae arweinwyr a staff yr ysgol yn llwyddo i wireddu elfen allweddol o'r weledigaeth, sef sicrhau amgylchedd ble mae disgyblion yn hapus ac yn dysgu. Mae athrawon mwyaf profiadol yr ysgol

wedi ymgymryd â hyfforddiant pwrpasol er mwyn datblygu eu medrau arweinyddiaeth. Mae hyn yn cael effaith bositif ar elfennau pwysig o’r ddarpariaeth, fel cryfhau’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn gyffredinol, mae rolau a chyfrifoldebau’r staff yn glir er nid yw hyn bob tro’n dylanwadu’n ddigon cryf ar waith a chyfeiriad strategol yr ysgol.

Mae aelodau’r corff llywodraethol yn cyflawni eu dyletswyddau statudol yn briodol ac yn dangos ymwybyddiaeth addas o gryfderau'r ysgol a'r hyn sydd angen ei wella. Er enghraifft, maent wedi cydweithio’n dda â’r pennaeth a’r awdurdod lleol i ad-drefnu strwythur staffio’r ysgol i atal gorwariant yn y cyllid blynyddol. Mae’r corff llywodraethol hefyd yn sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Maent yn derbyn adroddiadau tymhorol gan y pennaeth sy’n amlygu bywyd a gwaith yr ysgol yn addas. Er hyn, mae cyfyngiadau yn ystod cyfnod y pandemig wedi atal aelodau'r corff rhag gweithredu’n llawn yn eu rôl fel cyfeillion beirniadol ac i herio penderfyniadau yn ddigon cadarn.

Nid yw trefniadau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella’r ysgol yn ddigon effeithiol er mwyn mynd i’r afael â meysydd pwysig. Er bod arweinwyr wedi adnabod a gwella elfennau o'r ddarpariaeth fel medrau darllen disgyblion ac ardaloedd dysgu a chwarae ar waelod yr ysgol, nid ydynt bob tro’n gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth a safonau yn ddigon manwl. Mae'r cynllun gwella ysgol diweddar yn cynnwys ystod addas o flaenoriaethau, er nid yw’r camau gweithredu bob tro’n ddigon miniog nac yn canolbwyntio’n ddigonol ar wella medrau disgyblion. Yn ogystal, nid yw adroddiadau monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau yn ddigon arfarnol nac yn amlygu’r camau nesaf yn ddigon clir. O ganlyniad, nid oes gan arweinwyr ddealltwriaeth ddigon cadarn o sefyllfa gyfredol yr ysgol o'r hyn sydd yn dda a beth sydd angen ei wella.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol/aelodau'r pwyllgor rheoli' trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at: cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/07/2022

***Cyfarfod Cymdeithas CCYSAGau Cymru,***
***Yn rhithwir drwy Microsoft Teams***
***29 Mehefin 2022***
**10.30a.m. – 12.15p.m.**

**Yn bresennol**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ynys Môn**<br>Dylan Rees (DR)<br>Rheinallt Thomas (RT)<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Kathy Riddick (KR)<br>Chris Abbas (CA)<br>C. Knowlson (CK)<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr**<br>Alice Parry (AP)<br>Edward Evans (EE)<br><br>**Caerffili**<br>Marina Chacon - Dawson (MC)<br><br>**Caerdydd**<br>T. Saunders (TS)<br><br>**Sir Gaerfyrddin**<br><br>**Ceredigion**<br>Mary Davies (MD)<br>Anne Ursuka (AU)<br><br>**Conwy**<br>Jennie Downes (JD)<br>Phil Lord (PL)<br>Roger Boon (RB) | **Sir Ddinbych**<br>Phil Lord (PL)<br>Collete Owen (CO)<br><br>**Sir y Fflint**<br>Vicky Barlow (VB)<br>Jane Borthwick<br>Claire Homard (CH)<br><br>**Gwynedd**<br><br>**Merthyr Tudful**<br><br>**Sir Fynwy**<br>Louise Brown (LB)<br><br>**Castell-nedd Port Talbot**<br>Fiona Thomas (FT)<br><br>**Casnewydd**<br>Neeta Baicher (NB)<br>Hayley Jones (HJ)<br>Huw Stephens (HS)<br><br>**Sir Benfro** | **Powys**<br>John Mitson (JM)<br><br>**Rhondda Cynon Taf**<br>Donna Graves (DG)<br>Matthew Maidment (MM)<br><br>**Abertawe**<br>Jennifer Harding-Richards (JHR)<br><br>**Torfaen**<br><br>**Bro Morgannwg**<br><br>**Wrecsam**<br>Tania ap Siôn (TS)<br><br>**PYCAG**<br>Paula Webber (PW)<br><br>***EFTRE***<br>Phil Lord (PL) | ***Arsyllwyr:***<br><br>Sue Cave (SC)<br><br>**MAGC**<br>Paul Morgan (PM)<br><br>**CBAC**<br><br>**ESTYN**<br><br>**Llywodraeth Cymru**<br><br>**REC**<br>Kathy Riddick (KR)<br><br>**Eglwys yng Nghymru**<br>Jennie Downes (JD)<br><br>**Gwasanaeth Addysg Gatholig**<br><br>**Cymwysterau Cymru**<br><br>**Rhwydwaith Rhyng-ffydd**<br><br>**ADEW**<br>Prifysgol Cymru<br>Rachel Bendall (RB)<br><br>**Cyflwynwyr Partneriaeth**<br>Julian Nicholds (JN)<br><br>**Cofnodion (o recrodiad)**<br>Jo Nicholls (JNI) |

DRAFT

**Cofnodion y cyfarfod**

**1. Cyflwyniad a chroeso**

Croesawodd RS bawb (yn ddwyieithog) i gyfarfod yr haf.

Croesawodd Claire Homard, Prif Swyddog Addysg ac Ieuenctid yn Sir y Fflint bawb (yn ddwyieithog), fel y CYSAG oedd yn lletya.

Dywedodd CH ei bod yn amser cyffrous ar gyfer gwaith CCYSAGauC dros addysg grefyddol yng Nghymru, gyda symud i weithredu'r cwricwlwm newydd o'r mis Medi yma. Dywedodd CH fod pob CYSAG wedi bod yn brysur gyda'r Cynadleddau Maes Llafur Cytunedig. Mae'r cwricwlwm newydd yn canolbwyntio ar gynnig darpariaeth i ddysgwyr ddatblygu a gwerthfawrogi perthyn i'w hardal leol, i Gymru a'r byd ehangach. Hefyd, i gael profiad o fyd natur, gwerthfawrogi'r amgylchedd a gweithio tuag at ddyfodol cynaliadwy i ni i gyd.

Yn ôl CH, mae gan ein hysgolion a'n dysgwyr yn ein cymunedau Cymreig lleol hanes cyfoethog iawn yn ogystal â'u profiadau byw i dynnu arnynt.

Disgrifiodd CH rai o uchafbwyntiau Sir y Fflint yn cynnwys mynediad at amgylcheddau natur bendigedig gyda'r parciau gwledig a'r arfordir hardd; hanes crefyddol lliwgar sy'n cynnwys Ffynnon Gwenffrewi yn Nhreffynnon; Abaty Dinas Basing ym Maes-Glas, Treffynnon a'r Fynachlog ym Mhantasaph a nifer o gestyll. Caiff y celfyddydau a diwylliant eu dathlu yn Theatr Clwyd. Mae traddodiad cryf o gefnogi'r iaith Gymraeg ac mae Sir y Fflint yn cyfrannu at yr Eisteddfodau.

Gall CGM o fewn y Cwricwlwm i Gymru wneud cyfraniad pendant at wireddu'r pedwar diben. Ceir cyfleoedd drwy CGM i ddysgwyr brofi cwricwlwm sy'n ddiddorol, ac mae'n amserol myfyrio ar y pedwar diben wrth i ni ddechrau'r cyfarfod heddiw.

Rydym eisiau i'n dysgwyr fod yn uchelgeisiol a galluog; yn gyfranwyr mentrus a chreadigol; yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus yng Nghymru a'r byd ac yn unigolion iach a hyderus.

**2. Myfyrio tawel**

Dywedodd RS fod Cymru ar hyn o bryd yn wynebu'r newid mwyaf mewn addysg ers cenhedlaeth. Mae ofn y dieithr ymhlith ymarferwyr, rhieni, a disgyblion. Gall CCYSAGauC helpu ysgolion, rhieni, a disgyblion gyda'r her hon o ffordd newydd o ddysgu.

Arweiniodd RS fyfyrdod tawel ar y cyfleoedd a'r heriau sydd o'u blaen i rieni, athrawon, a disgyblion.

**3. Ymddiheuriadau**

Ymddiheuriadau gan Libby Jones, John Meredith, a Susanne Gooding o'r Pwyllgor Gwaith.

Ymddiheuriadau gan Catherine McCormack, Cadeirydd CYSAG Sir y Fflint ac o GYSAG Gwynedd - Cynghorydd Beca Brown, Cynghorydd Paul Rowlinson a Gwawr Williams.

Sylwer y bydd y Cynghorydd Wayne Carpenter yn ymuno â'r Cyfarfod Blynyddol yn unig.

Sylwer y bydd Fiona Thomas, CYSAG Castell Nedd yn ymuno â chyfarfod CCYAGau yn unig.

## 4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar Microsoft Teams ar 2 Ebrill 2022

Gwall sillafu yn Saesneg, tud 10 'pacifism' ddylai fod.

Cytunwyd fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Ebrill 2022. Cynigiodd RT dderbyn y cofnodion.

## 5. Materion yn codi o gofnodion cyfarfod diwethaf CCYSAGauC

Bydd unrhyw faterion sy'n codi o'r cyfarfod yn cael eu trafod neu eu hystyried o fewn y cyfarfod heddiw.

- Dywedodd RS fod CCYSAGauC wedi cael ymholiadau yn gysylltiedig â Chynadleddau'r Maes Llafur Cytunedig a chydnabuwyd fod oedi mewn rhai Cynadleddau oherwydd y newid cynghorau ar ôl yr etholiadau lleol. Os oes angen cymorth, cysyllter â RS neu AP.
- O safbwynt y weithred ar Dudalen 8 i LB anfon e-bost am y ddeddfwriaeth, diolchodd RS i LB am yr e-bost a chadarnhaodd fod e-bost LB wedi'i anfon ymlaen i Lywodraeth Cymru ac y bydd yn cael sylw yn y cyfarfod heddiw.
- Mynegodd RT bryder nad oes cyfleuster i gael cyfieithu o'r Gymraeg yn y cyfarfodydd TEAMS. Nid yw hyn yn cyd-fynd â'r cyfansoddiad. Cadarnhaodd RS fod hyn wedi'i drafod ac y bydd ar yr agenda yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith, ddechrau mis Hydref. Bydd CCYSAGauC yn dychwelyd i gyfarfodydd wyneb yn wyneb ar yr agenda hefyd.

## 6. Diweddariad ar ddeunyddiau Datblygu Proffesiynol

Rhoddodd TaS y diweddariad canlynol am y deunyddiau Datblygu Proffesiynol.

Atgoffwyd y grŵp gan TaS am y cyflwyniad a roddwyd gan TaS a LJ, yng nghyfarfod diwethaf CCYSAGauC a oedd yn manylu ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd gan CCYSAGauC a Llywodraeth Cymru.

Ar 26 Ebrill 2022, arweiniodd CCYSAGauC ddigwyddiad Mewnwelediad Polisi Llywodraeth Cymru lle rhannwyd y rhestrau chwarae dysgu proffesiynol. Roedd 105 yn bresennol yn y digwyddiad ac roedd y sylwadau a gafwyd cyn ac ar ôl y digwyddiad yn gadarnhaol iawn.

Roedd TaS yn argymell fod aelodau CCYSAGauC yn ymweld â HWB ac yn chwilio am recordiad o'r digwyddiad. Yn arbennig, dylent wrando ar Kevin Palmer, Dirprwy Gyfarwyddwr Addysgeg Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol. Rhoddodd Kevin gyflwyniad pwysig i'r digwyddiad a dangosodd ei gefnogaeth i CGM.

Pwysleisiwyd yng nghyfarfod diwethaf CCYSAGauC bwysigrwydd y broses sicrhau ansawdd wrth ddatblygu adnoddau. Mae'r tîm SA presennol yn cynnwys pedwar aelod o Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC yn ogystal â chydweithwyr Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae grŵp cyfeirio allanol sy'n adolygu'r rhestrau chwarae yn eu drafft terfynol a bydd HWB hefyd yn adolygu'r adnoddau sydd angen eu cyfieithu i'r Gymraeg. Roedd TaS yn cydnabod y bydd yn broses hir cyn y gellir cyhoeddi'r rhestrau chwarae ac felly mae'r dyddiad cyhoeddi ychydig yn hwyrach na'r disgwyl.

O ran y dyddiadau cyhoeddi, bydd yr adnoddau'n cael eu cyhoeddi mewn tair set:

⇒ Cyhoeddir Grŵp 1 ar ddechrau Medi. Mae Grŵp 1 yn cynnwys y modiwlau 'Beth sy'n Newydd?' – ar gyfer Penaethiaid, Blynyddoedd Cynnar, Cynradd, Uwchradd ac ADY.

⇒ Cyhoeddir Grŵp 2 yn fuan ar ôl Grŵp 1 ac mae'n cynnwys 3 modiwl: CGM a rhifedd; cymhwysedd digidol a llythrennedd.

⇒ Bydd Grŵp 3 yn dilyn yn nhymor yr hydref - sy'n cynnwys CGM a'r dyniaethau a chynnydd yn y modiwl addysgeg a'r ymagwedd tuag ato i Benaethiaid.

Roedd y tîm prosiect yn fodlon iawn â safon y rhestrau chwarae. Bu'n waith caled i'r tîm ac i'r athrawon sy'n ysgrifennu'r adnoddau. Roedd yr Athrawon yn derbyn pob adborth ac yn barod i barhau â'r broses.

Ar ran CCYSAGAuC, diolchodd RS i'r athrawon sydd wedi gweithio'n ddiflino ar y rhestr chwarae, a hefyd i'r tîm, sy'n gyfrifol am fonitro a chefnogi. Gofynnodd RS i werthfawrogiad a diolch CCYSAGAu gael ei drosglwyddo i'r Athrawon a'r tîm.

**7. Materion Llywodraeth Cymru:**

**Cyfarfodydd**
Cynhaliwyd cyfarfod ddydd Iau 23 Mehefin 2022. Roedd RS yn gallu bod yn bresennol, hefyd TaS a Libby Jones ar ran CCYSAGauC, a chynrychiolwyd PYCAG gan PW.

Cafwyd yr adborth canlynol o'r cyfarfod gan TaS. Y rheiny oedd yn bresennol o Lywodraeth Cymru oedd John Pugley (JP), Pennaeth yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu a Ceri Davies (CD), Rheolwr Cysylltiadau.

Dyma grynodeb o'r materion agenda a drafodwyd:

1) Y broses o fabwysiadu'r Maes Llafur Cytunedig (MLlC) i CGM
   Cadarnhawyd fod angen i GYSAGau anfon y Maes Llafur Cytunedig (MLlC) i JP a CD. Cedwir y rhain er gwybodaeth. Os nad yw Awdurdod Lleol wedi mabwysiadu'r MLlC erbyn 1 Medi 2022, bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn penderfynu ar y cam nesaf gan nad oes cynsail wedi'i gosod i'r sefyllfa hon. Cydnabyddir y gall fod yn broblem i nifer o GYSAGau gyrraedd y dyddiad cau oherwydd yr oedi cyn i'r CYSAG gael ei gyfansoddi'n gyfreithiol ac felly oedi cyn y broses o fabwysiadu'r MLlC.

   Os na all yr ALl gytuno ar y maes llafur erbyn 1 Medi 2022, dylai'r ALl gysylltu â Llywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru'n cymryd agwedd synnwyr cyffredin ac yn dechrau proses gyda'u tîm cyfreithiol. Mae LlC yn awgrymu y dylai'r Awdurdodau hyn ofyn i ysgolion gyfeirio at y canllawiau CGM ar HWB yn y cyfamser nes y gellir cyhoeddi'r maes llafur cytunedig.

2) Canllawiau CGM ar HWB a'r newidiadau i'r crynodeb cyfreithiol ar HWB.

   Cyfeiriwyd at hyn yn barod yn Eitem 3 'Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf, sef yr ebost gan LB.

   Roedd rhan o'r crynodeb cyfreithiol yn ddryslyd ac angen eglurder. Y nod yw peidio â newid dim ond egluro a sicrhau fod yr adran hon yn haws ei darllen a'i deall.

   Cyn y cyfarfod hwn gyda Llywodraeth Cymru, roedd aelodau Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC wedi anfon awgrymiadau am newidiadau i adran crynodeb cyfreithiol CGM at JP.

   Cadarnhaodd JP fod y newidiadau hyn wedi'u derbyn a'u bod bellach wedi'u cynnwys mewn drafft diwygiedig sydd ar hyn o bryd yn cael ei adolygu gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau. Ni ellir rhannu'r newidiadau nes bod y Gweinidog wedi'u cymeradwyo. Bydd

JP yn anfon copi o’r newidiadau y cytunwyd arnynt i CCYSaGAuC cyn iddynt gael eu cyhoeddi ar HWB. Dylai hwn gyrraedd mewn tua wythnos.

Ail ran eitem agenda 2 oedd eglurhad ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar a CGM. Mae nifer o dermau yn cael eu defnyddio i ddiffinio’r Blynyddoedd Cynnar ac mae angen cysondeb. Deellir fod CGM yn fandadol o 3 mlwydd oed ac y dylai fod yn blwraliaethol o’r oedran hwn hefyd. Mae Llywodraeth Cymru am ddod yn ôl atom i roi mwy o eglurhad am y blynyddoedd cynnar er mwyn sicrhau fod negeseuon clir a safonol yn cael eu rhoi.

3) Llythyr safonol i ysgolion a rheini par. CGM.

Mae nifer o GYSAGau wedi gofyn i lythyr safonol gael ei anfon gan Lywodraeth Cymru i ysgolion a rhieni yn eu hysbysu am y newidiadau, yn cynnwys cael gwared ar hawl rhieni i dynnu eu plant yn ôl o CGM.

Cadarnhaodd CD fod cyfarfod yr wythnos hon gyda’r adran gyfathrebu, ac y bydd hyn yn cael ei drafod.

Sylweddolir bod dwy gynulleidfa i’r llythyr hwn – ysgolion a rhieni. Mae angen sicrhau fod y neges gywir yn cyrraedd pob cynulleidfa.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyfleu gwybodaeth am y cwricwlwm yn rheolaidd mewn nifer o wahanol ffyrdd. Awgrymodd LLC nad un llythyr oedd y ffordd ymlaen ac y byddai’n fwy buddiol cael proses gyfathrebu barhaus. Awgrymwyd fod gohebiaeth gychwynnol yn cael ei hanfon cyn diwedd y tymor a fyddai’n cael ei hatgyfnerthu wedyn ym mis Medi.

Holodd Llywodraeth Cymru beth oedd gofynion CCYSAGauC o ran cynnwys y cyfathrebiad.

Cytunwyd mai’r prif feysydd oedd:

⇒ Y newid enw.
⇒ Natur fandadol CGM.
⇒ Natur blwraliaethol CGM.
⇒ Yr angen i CGM fod yn wrthrychol a beirniadol.
⇒ Cael gwared ar hawl rhieni i dynnu plant yn ôl o CGM.
⇒ Fod y llythyr i ysgolion yn cynnwys yr angen i gyd-fynd â Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru a chydnabod fod angen dull newydd. Ar ben hynny, pwysigrwydd fod ysgolion yn glynu at y maes llafur cytunedig lleol.

Bydd nifer o negeseuon yn cael eu hanfon i ysgolion drwy broses gyfathrebu Llywodraeth Cymru.

Dywedodd TaS, os oes unrhyw beth sy’n ymddangos yn broblem i CCYSAGauC, y dylent ei hysbysu hi a gellir anfon y manylion yn ôl i Lywodraeth Cymru.

4) **Adnoddau CGM.**
Fel y soniodd RS yn y myfyrdod tawel, mae cryn heriau gyda'r dull newydd.

Mae angen i CCYSAGauC sicrhau darpariaeth o adnoddau priodol i helpu ysgolion sy'n adlewyrchu'r canllawiau CCM a'r Cwricwlwm i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru ar fin cyhoeddi pecyn canllaw ar adnoddau.

Pan fydd adnoddau newydd wedi cael eu cyhoeddi, byddant yn cael eu hadolygu gan banel adolygu cyn cael eu derbyn i'w cyhoeddi ar HWB. Mae hyn yn wir am adnoddau i'r dosbarth yn ogystal ag adnoddau Dysgu Proffesiynol. Mae LlC yn sicr yn chwilio am y ffyrdd gorau o roi cefnogaeth ddefnyddiol i ymarferwyr.

5) **Cynlluniau ar gyfer Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)**

Cododd PW y mater fod Dysgu Proffesiynol yn cael ei ddatblygu i CGM mewn ysgolion ac ymhlith ymarferwyr ond beth am y sector AGA.

Eglurodd Llywodraeth Cymru mai cylch gwaith Kevin Palmer yw'r sector AGA. Byddwn yn dychwelyd at y pwnc hwn dros y flwyddyn nesaf. Cytunwyd y bydd y rhestrau chwarae CGM sydd wrthi'n cael eu datblygu yn ddefnyddiol i'r Sector AGA.

6) **Cylchlythyr 1094**

Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru nad oes cynlluniau ar hyn o bryd i adolygu 1094 er y sylweddolir ei fod wedi dyddio. Am nawr, mae'r datganiad canlynol yn wir - 'Nid yw CGM 1094 yn berthnasol mwyach, mae'n cael ei symud i Ganllawiau a Fframwaith y Cwricwlwm i Gymru'. Mae LlC yn gofyn am beidio â chyfeirio ato o safbwynt CGM. Fodd bynnag, mae 1094 yn dal i fod yn berthnasol i addoli ar y cyd.

I gloi, dywedodd TaS fod y cyfarfod wedi bod yn un cadarnhaol a chynhyrchiol. O ganlyniad, cytunwyd i gynnal y cyfarfodydd hyn, rhwng CCYSAGauC, PYCAG, a Llywodraeth Cymru bob tymor. Cynhelir y cyfarfod nesaf ym mis Medi a bydd hyd y cyfarfod yn cynyddu i awr a hanner.

Diolchodd RS i TaS am y diweddariad a dywedodd ei bod yn galonogol gweld fod Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi rôl CCYSAGauC a PYCAG.

JHR: Ydi Llywodraeth Cymru yn rhannu'r wybodaeth am 1094 gydag Awdurdodau Lleol?

**GWEITHREDU: TAS i ofyn i Lywodraeth Cymru a ddylid rhannu'r wybodaeth am 1094**

LB: A fydd drafft o'r newidiadau yn y crynodeb deddfwriaethol ar gael i'w gwirio?

RS: Bydd y newidiadau arfaethedig yn y crynodeb deddfwriaethol yn cael eu hanfon i CCYSAGAuC cyn iddo gael ei gyhoeddi.

PW: Cadarnhaodd y bydd y drafft arfaethedig yn cael ei anfon i Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC i'w gymeradwyo ac na fydd proses ymgynghori.

PW: Yn falch gyda'r broses Sicrhau Ansawdd i'r adnoddau ar HWB. Mae LlC hefyd yn edrych ar yr adnoddau sydd ar gael ar HWB ar hyn o bryd ac yn gwneud gwiriad ansawdd.



DRAFT

## 8. Cyflwyniad PYCAG – Consortiwm Partneriaeth

Mae JHR yn Bennaeth Gwyddor Gymdeithasol yn Ysgol Gyfun yr Esgob Gore yn Abertawe. Yn y flwyddyn ddiwethaf, cafodd ei secondio am ddau ddiwrnod yr wythnos i fod yn ymgynghorydd AG / CGM yn Abertawe. O fis Medi 2022, bydd JHR yn rhoi gorau i'w swydd fel athrawes i gymryd swydd ymgynghorydd CGM ac ACRh i Abertawe, Sir Benfro, a Sir Gaerfyrddin.

Cyflwynodd JHR grynodeb o gynnig dysgu proffesiynol CGM Cyngor Abertawe dros y flwyddyn ddiwethaf :

4 Sesiynau Dysgu Proffesiynol gyda'r cynradd a'r uwchradd, gyda tua 80 - 100 yn bresennol. Rhannwyd y recordiadau gyda chydweithwyr ar draws y rhanbarth.

- Mawrth 2022: Canllawiau, datgymalu CGM, y maes llafur cytunedig
- Mai 2022: Cynllunio cwricwlwm ar gyfer rhagoriaeth
- Mehefin 2022: Rhannu ymarfer effeithiol
- Gorffennaf 2022: Sesiwn Agored Holi ac Ateb i CGM – eto i'w gynnal

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae cydweithwyr o Gastell Nedd a Phort Talbot wedi ymuno â'r rhwydwaith ymroddedig yn Abertawe. Cynhaliwyd cyfarfodydd fforwm agored, ddwywaith y flwyddyn, gyda rhwng 15 - 20 o gydweithwyr yn bresennol. Bydd y rhain yn parhau dros y flwyddyn academaidd nesaf a gobeithir gallu dychwelyd i sesiynau wyneb yn wyneb.

Mae pob Pennaeth ac Uwch Arweinydd (Cynradd ac Uwchradd) wedi cael y cyfle i gael dysgu proffesiynol am CGM o fewn y Cwricwlwm i Gymru.

Cafodd holl Lywodraethwyr Abertawe gyfle i gymryd rhan mewn sesiwn DP i'w helpu gyda'u rôl, a bydd hon yn rhaglen barhaus dros y flwyddyn academaidd nesaf.

Mae yno aelodau ffydd gweithredol a chynhaliwyd cyfarfodydd tymhorol ag arweinwyr crefyddol/bydolygon o fewn y gymuned. Roedd y rhain yn ddigwyddiadau uchel eu proffil yn yr awdurdod lleol, o dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Addysg a byddant yn parhau dros y flwyddyn academaidd.

Mae gan GYSAG Abertawe gynrychiolwyr o bob un o'r prif grefyddau a nodwyd yng nghyfrifiad 2011 (data Abertawe). Mae Grŵp A yn grŵp rhagweithiol a blaengar, sydd â diddordeb mewn archwilio sut gallant gefnogi ysgolion ac athrawon gyda CGM.

Gyda Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r cynllun gweithredu gwrth-hiliaeth, cynhaliwyd sesiwn AG gyda chydweithwyr Cynradd ac Uwchradd i helpu i ddatblygu CGM gwrth-hiliol. Roedd y sesiwn yn edrych ar sut i ddat-goloneiddio'r cwricwlwm a sicrhau ei fod yn gydnaws â'r cynllun gweithredu gwrth-hiliol. Cafwyd presenoldeb da ym mis Ionawr gyda dros 100 yno. Mae'r Awdurdod Lleol yn talu am ailadrodd yr hyfforddiant ym mis Gorffennaf ac mae dros 50 o gydweithwyr wedi cofrestru ar hyn o bryd.

Rhwng Ionawr a Mai 2022 treuliwyd amser yn paratoi i ddatblygu'r maes llafur cytunedig newydd ac i gynnal Cynadleddau MLlC ar ôl etholiadau llywodraeth leol mis Mai.

Yn ystod yr amser hwnnw cyd-luniwyd y maes llafur cytunedig gyda phob rhanddeiliad:

⇒ Gwnaed awdit athrawon a gynhyrchodd ganfyddiadau perthnasol sydd wedi'u bwydo'n ôl i'r broses Maes Llafur Cytunedig.

- ⇒ Gwnaed arolwg llais y disgybl gan ddefnyddio cwestiynau o'r dyfarniad marc ansawdd CGM. Cafwyd canfyddiadau cyfoethog i fwydo i mewn i'r broses MLC.
- ⇒ Cafwyd arweiniad cyfreithiol.
- ⇒ Gwnaed penderfyniad i adolygu'r broses yn flynyddol. Gan sylweddoli na fydd pob ysgol yn symud ymlaen â'r Cwricwlwm i Gymru ym mis Medi, nid yw tua 50% o ysgolion yn gwneud. Angen sicrhau fod y MLIC yn cael ei adolygu'n gyson nes ei fod wedi'i wreiddio'n llwyr ac yn cefnogi'n dylunwyr cwricwlwm yn yr ysgolion.
- ⇒ Derbyniwyd cyllid ac ar hyn o bryd yn gweithio ar adnoddau CGM i helpu ysgolion i ddatblygu eu cwricwlwm CGM. Y flaenoriaeth yw sicrhau fod ysgolion ac athrawon yn cael y sybsidiaredd a'r hyblygrwydd y mae'r cwricwlwm yn ei ganiatáu a chynnig awgrymiadau ynglŷn â dylunio'r cwricwlwm er mwyn sicrhau ei fod yn oddrychol, plwraliaethol, a beirniadol. Bu athrawon ar draws Abertawe â rhan yn ei ddatblygu ac mae gwaith peilot yn digwydd cyn ei gyhoeddi ym mis Medi.

Gan symud ymlaen, ar hyn o bryd yn gweithio gydag ysgolion ac athrawon yn adolygu'r cynnig Dysgu Proffesiynol ar gyfer eleni a pha gefnogaeth arall sydd ei hangen i ddarparu CGM ardderchog. Defnyddir hwn i benderfynu ar y cynnig DP i CGM yn 2022/2023.

Eglurodd JHR y bu'r gwaith yn gydweithredol ar draws tri Awdurdod Lleol, Abertawe, Sir Benfro, a Sir Gaerfyrddin.

Cyflwynodd JHR Julian Nicholls, Prif Ymgynghorydd Dyniaethau i'r Bartneriaeth - partneriaeth ar draws tri ALl - Abertawe, Sir Benfro, a Sir Gaerfyrddin. Rôl JL fel ymgynghorydd yw cefnogi athrawon a disgyblion i baratoi at y cwricwlwm newydd a chymwysterau newydd. Mae JN yn sicrhau fod llais athrawon yn rhan o CGM. Mae hefyd yn cefnogi'r ymarferwyr gyda'r newidiadau i'r blaenoriaethau cenedlaethol o safbwynt gwrth-hiliaeth a dat-goloneiddio'r cwricwlwm.

Cafwyd diweddariad gan JN:
- ⇒ Partneriaeth CGM
  - Yn cefnogi cydweithwyr ac yn trafod eu gofynion o ran y newidiadau i CGM er mwyn sicrhau cydlyniant ar draws y Bartneriaeth.
  - Sicrhau fod arweinwyr dyniaethau nad ydynt yn arbenigwyr CGM yn cael cymorth
  - Bod yn ymatebol i anghenion athrawon. Sicrhau fod athrawon ac arweinwyr yn cymryd rhan o'r cychwyn cyntaf.
  - DP ar ddysgu, cynnydd, ac asesu sy'n rhoi canllawiau'r cwricwlwm mewn cyd-destun gyda CGM.
  - Datblygu a thyfu enghreifftiau a modelu arfer da.

- ⇒ Gwrth-Hiliaeth
  - Rhaglen DP ranbarthol yn gosod Gwrth-hiliaeth ar bob lefel o arweinyddiaeth ac ymarfer.
  - Ymagwedd strategol at ddysgu proffesiynol gyda DARPL, Prifysgolion, Cyngor Hil Cymru a phartneriaid eraill.
  - DP i Arweinyddion ac athrawon ar ddat-goloneiddio'r cwricwlwm.
  - Gweithio gyda Sefydliadau Addysg Uwch i gynnig cyfleoedd Ymholiad Agos at Ymarfer i ysgolion.

Diolchodd RS i JHR a JN am eu cyflwyniad. Mae'n dda clywed am y gwaith i gefnogi athrawon gyda'r cwricwlwm newydd, o ran CGM a'r cynllun gwrth-hiliaeth.

LB: Sut mae’r rhwymedigaeth gyfreithiol yn cael ei hadlewyrchu yn y deunyddiau?

JHR: Cadarnhaodd fod DP ar draws Abertawe wedi canolbwyntio ar CGM a’r ddeddfwriaeth i sicrhau ei fod yn blwraliaethol, gwrthrychol, a beirniadol.

RB: Soniwyd nad yw rhai Penaethiaid Dyniaethau yn arbenigwyr CGM o reidrwydd, ydi hon yn broblem gyffredin?

JN: Ddim yn siŵr o’r niferoedd ond yn gweld hyn fel cyfle i gefnogi a chynghori’r unigolion hynny heb arbenigedd CGM drwy ychwanegu haen arall o gefnogaeth.

RB: Mae’n allweddol i gyflwyno’r cwricwlwm fod Penaethiaid Dyniaethau nad ydynt yn arbenigwyr CGM yn deall y cwricwlwm newydd a’r gofynion am gydbwysedd ayb

RS: Dylid cadw llygad ar hyn a’i fonitro er mwyn sicrhau fod pob ysgol yn cael yr arweiniad a’r gefnogaeth iawn naill ai drwy Benaethiaid Dyniaethau neu drwy ffyrdd eraill, gan fod pob lleoliad yn wahanol.

RT: Hysbysodd y grŵp fod deunyddiau gwrth-hiliaeth wedi cael eu creu gan Eglwys Fethodistaidd a Chyngor Eglwysi Rhyddion Lloegr. Ar hyn o bryd maent yn cael eu haddasu i Gymru a byddant yn cael eu cyfieithu i’r Gymraeg ac ar gael ar HWB.

HS: Diolchodd i JHR. Soniwyd y bydd hyn yn cael ei fonitro’n flynyddol. Gan fod y cwricwlwm yn cael ei ddylunio gan yr ysgol leol, a fydd y gwerthuso’n digwydd drwy Athrawon neu Benaethiaid? Sut ydych chi’n mynd i fonitro a gwybod fod ysgol yn darparu CGM? Allwch chi ddim aros tan adroddiad arolygiad ESTYN. Gallai hyn fod yn broblem.

RS: Mae CCYSAGauC, Llywodraeth Cymru ac ESTYN mewn trafodaethau ynglŷn â monitro CGM a safon CGM.

JHR: Yn y sgyrsiau cychwynnol mewn cyfarfodydd CYSAG, soniwyd am nifer o ddulliau, yn bennaf gofyn i’r Penaethiaid gynnwys CGM yn eu hadroddiad tymhorol. Bydd hyn yn bwydo i mewn i gyfarfodydd CYSAG. Yn ogystal â hynny, bydd awdit yr Athrawon a llais y Disgybl yn parhau. Ond byddwn yn dysgu wrth fynd ymlaen.

AU: Mae gwrth-hiliaeth yn bwysig iawn ond mae angen bod yn ofalus gan fod arbrawf Americanaidd gyda’r ddamcaniaeth hil gritigol wedi cael effeithiau gwahanol. O ran y gair ‘dat-goloneiddio’ sy’n derm a ddefnyddir yn aml, mae rhai prifysgolion yn symud i ffwrdd o’r derminoleg hon wrth i ddemocratiaeth mewn prifysgolion ddioddef. Hefyd awgrymu y dylai’r drafodaeth wrth-gaethwasiaeth fod mor lleol a pherthnasol â phosibl.

JN: Y bwriad yw ystyried pob safbwynt er mwyn galluogi’r dysgwyr i ddeall o bob ochr heb gywilydd. Bydd hyn yn cael ei reoli’n hynod o ofalus.

NB: Mae yna gyhoeddiadau diweddar sy’n manylu ar y defnydd o eiriau a’r iaith i’w defnyddio.

PW: O ran gwrth-hiliaeth, mae angen i ni gymryd cyngor gan gyrff fel DARPL a BAMEed Cymru.

## 9. Diweddariadau:

⇒ **REC**

KR: Mae Swyddog Gweithredol newydd, sef Indy Nottage. Ataliwyd pob cyfarfod pwyllgor tra bod strwythur y Pwyllgor yn cael ei adolygu. Mae gwaith mewnol yn mynd rhagddo i asesu strwythur a nodau'r Cyngor. Gwnaed cryn dipyn o waith ar y Prosiectau Bydolygon. Mae'r REC wedi dweud nad yw'r llawlyfr a gynhyrchwyd yn adlewyrchu'r Cwricwlwm i Gymru ac y dylid cyfeirio ato fel llawlyfr i Loegr. Cytunwyd ar hyn.
Yn y dyfodol, byddai'n fuddiol cael eitem ar yr agenda i drafod y rôl y mae'r Cyngor yn ei chwarae o fewn CCYSAGau ac fel arall.

**GWEITHREDU:** Trafod rolau CCYSAGauC a'r REC mewn cyfarfod yn y dyfodol

⇒ **EFTRE**

PL: Yn argymell fod aelodau CCYSAGauC yn mynd i wefan EFTRE i gael diweddariadau. Eitemau diddorol am naratif ac adrodd straeon sy'n berthnasol o ran edrych ar gwricwlwa lleol. Gohiriwyd cynhadledd EFTRE tan fis Awst 2023.

⇒ **MAGC**

RT: Mae RT yn gweithio gyda Vaughan Salisbury a Libby Jones ar addasu'r deunydd gwrth-hiliaeth i'r Gymraeg.

⇒ **PYCAG**

PW: Newydd gyfarfod wyneb yn wyneb am ddiwrnod cyfan. Mor dda dod yn ôl yn bersonol a gwaith ymarferol yn y prynhawn. Yn ymateb i geisiadau ysgolion ac yn datblygu enghraifft o bolisi CGM i ysgolion. PYCAG i rannu drafft gyda CCYSAGauC pan fydd ar gael. Y nod yw cadw'r ddogfen hon ar lefel uchel a sicrhau fod ysgolion yn gallu ei haddasu oherwydd sybsidiaredd. Yn y bôn, adnabod agweddau perthnasol o'r fframwaith a'u gosod yn nhermau polisi.

Mae nodau ac amcanion eraill yn cynnwys gwaith ar gynllun strategol a sut gallwn gryfhau ein perthynas â CCYSAGauC yn sgil effaith Covid 19 a diffyg cyfarfodydd wyneb yn wyneb.

Mae PYCAG yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am adolygiad o'r broses ysgrifennu adroddiad blynyddol. Mae nifer o newidiadau, megis y ffordd y mae ESTYN yn gweithio a'r ffordd yr adroddir ar TGAU, felly mae angen diweddariad. Allai CCYSAGauC ysgrifennu llythyr at Lywodraeth Cymru am hyn hefyd?

Trafodwyd cynllun Gwrth-Hiliaeth y Llywodraeth. Bydd PYCAG yn cysylltu â DARPL a BAMEed. Mae hwn yn agenda pwysig ac mae angen sicrhau fod CGM yn cyfrannu at y drafodaeth ac yn rheoli'r hawl i dynnu'n ôl. O ran yr ail, mae angen ymgysylltu'n gadarnhaol â chymunedau a allai fod â phroblem â CGM, fel Tystion Jehovah a'r cymunedau Teithwyr, er mwyn lliniaru unrhyw broblemau gyda chael gwared ar yr hawl i dynnu'n ôl.

Cododd rhai o'r ymgynghorwyr y broblem o Ddysgu Proffesiynol i rai nad ydynt yn arbenigwyr. A oes digon o DP ar gael? Soniwyd o'r blaen y byddai CCYSAGauC yn trefnu cynhadledd wedi i'r adnoddau DP gael eu cwblhau. A ellir rhoi hyn yn ôl ar yr agenda?



DRAFT

Cais i gael dyddiadau cyfarfodydd CCYSAGAuC cyn gynted â phosibl gan fod PYCAG yn trefnu ei gyfarfod ddiwrnod cyn Cyfarfod CCYSAGauC.

RS: Yn cytuno fod angen diweddaru'r adroddiad cynnydd blynyddol. O safbwynt DP i'r rhai nad ydynt yn arbenigwyr, mae'n cytuno fod hwn yn fater pwysig iawn a bydd CCYSAGauC yn ei drafod yn ei chyfarfod nesaf. Bydd CCYSAGauC yn ceisio rhyddhau dyddiadau'r cyfarfodydd cyn gynted ag y bo modd.

RS: Mae'r syniad o gynhadledd wedi cael ei roi o'r neilltu ond yn gobeithio ei adfer eto yn agenda CCYSAGauC yn y flwyddyn sy'n dod.

PW: Mae PYCAG yn grŵp mawr o ymgynghorwyr o bob ALl a chyrff eraill. Mae ei strwythur yn wahanol i'r hyn yr oedd flynyddoedd yn ôl. Hoffai PYCAG weithio gyda CCYSAGauC i ddatblygu'r gynhadledd.

RS: Croesawodd y cymorth gan PYCAG i drefnu'r gynhadledd.

**GWEITHREDU: RS i rannu yn y Pwyllgor Gwaith cais PYCAG i ysgrifennu llythyr i Lywodraeth Cymru am y broses adolygiad blynyddol.**

**GWEITHREDU: Dysgu Proffesiynol i rai nad ydynt yn arbenigwyr i'w gynnwys yn agenda CCYSAGauC**.

## 10. Adroddiad o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 17 Mai 2022 (Rachel Samuel)

Cynhaliwyd y cyfarfod diwethaf ar 17 Mai 2022, ac mae llawer o'r agenda eisoes wedi'i drafod yn y cyfarfod hwn neu bydd yn cael ei drafod yn y Cyfarfod Blynyddol yn y prynhawn.

Cafwyd trafodaeth am y cyfansoddiad a bydd hyn yn cael sylw yn y Cyfarfod Blynyddol. Trafodwyd enwebiadau i'r Pwyllgor Gwaith ynghyd â'r drefn bleidleisio. Coladwyd y papurau pleidleisio. Dylai unrhyw GYSAG sydd heb ddychwelyd eu papurau pleidleisio neu a'u hanfonwyd i Libby Jones ddydd Gwener neu ar ôl hynny, eu hanfon ymlaen YN SYTH i AP fel y gellir eu cyfri'n derfynol yn barod i'r Cyfarfod Blynyddol.

Trafodwyd Llywodraeth Cymru ac adnoddau DP, fel y gwelwyd yn eitemau Agenda 6 a 7.

Cafwyd cwestiwn gan Caerdydd a'r Fro am niferoedd TGAU, gyda chais i roi hwn ar agenda cyfarfod nesaf CCYSAGAuC. Cadarnhaodd RS y bydd eitem ar yr agenda yn y flwyddyn sy'n dod i edrych ar sefyllfa Astudiaethau Crefyddol TGAU a Safon Uwch a rhoi diweddariad ar ffigyrau. Pwyntiau trafod posibl yw sut a pham y mae pethau'n newid? A ellir gwrthdroi'r tueddiad neu a yw'n ganlyniad i newid yn yr amgylchedd arholiadau gyda'r cwricwlwm newydd?

## 11. Gohebiaeth

AP: Anfonodd Chris Abbas, o ffydd y Baha'i, daflen am gynhadledd ar Ryddid Crefydd a Chred oedd yn digwydd trannoeth yn Eglwys y Santes Fair, Stryd Bute, Caerdydd. Dylai unrhyw un sydd â diddordeb gysylltu ag AP.

## 12. Unrhyw fater arall (i'w gytuno arno cyn y cyfarfod gyda'r Cadeirydd)

RB: Wrth drafod mynd yn ôl i gyfarfodydd wyneb yn wyneb, a allai cyfarfodydd fod yn hybrid o ystyried y pellteroedd teithio.

RS: Bydd hyn yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith a’r canlyniad yn cael ei adrodd yn ôl i aelodau CCYSAGauC.

**GWEITHREDU: Ffurf y cyfarfod i’w drafod yng nghyfarfod Pwyllgor Gwaith nesaf CCYSAGauC.**

**13. Dyddiad y cyfarfod nesaf: Hydref 2022 I’w gadarnhau**

DRAFT